



## **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**



**Cyngor Bro Morgannwg  
Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr  
Gwasanaethau Cymdeithasol  
2019/20**

## Cynnwys

<b>1. Introduction</b> .....	<b>3</b>
<b>2. Director’s Summary of Performance</b> .....	<b>4</b>
<b>3. How Are People Shaping Our Services?</b> .....	<b>7</b>
<b>4. Compliments and Complaints</b> .....	<b>11</b>
4.1 Compliments .....	11
4.2 Complaints .....	12
<b>5. Promoting and Improving the Well-being of Those We Help</b> .....	<b>15</b>
5.1 WELL-BEING STANDARD 1: Working with people to define and co-produce personal well-being outcomes that people wish to achieve .....	15
5.2 WELL-BEING STANDARD 2: Working with people and partners to protect and promote people’s physical and mental health and emotional well-being .....	19
5.3 WELL-BEING STANDARD 3: Taking steps to protect and safeguard people from abuse, neglect or harm .....	20
5.4 WELL-BEING STANDARD 4: Encouraging and supporting people to learn, develop and participate in society .....	25
5.5 WELL-BEING STANDARD 5: Supporting people to safely develop and maintain healthy domestic, family and personal relationships .....	27
5.6 WELL-BEING STANDARD 6: Working with and supporting people to achieve greater economic well-being, have a social life and live in suitable accommodation that meets their needs .....	32
<b>6. How We Do What We Do</b> .....	<b>36</b>
6.1 Our Workforce and How We Support their Professional Roles .....	36
6.3 Our Partnership Working, Political and Corporate Leadership, Governance and Accountability .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<b>7. Accessing Further Information and Key Documents</b> .....	<b>45</b>

## 1. Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg, mae'n bleser gennyf allu amlinellu sut rydym wedi cryfhau ein darpariaeth gwasanaeth ymhellach yn ystod 2019/20 i wella lles ein dinasyddion sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Ni fyddai gwelliannau o'r fath wedi bod yn bosibl heb ymroddiad ein gweithlu a'n gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r bobl rydym yn eu gwasanaethu ac asiantaethau eraill er mwyn cyd-gynhyrchu canlyniadau.

Penderfynir ar fformat yr adroddiad hwn drwy reoliadau sy'n rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae ein cynnydd yn ystod 2019-20 wedi'i lunio o amgylch chwe safon lles, sy'n ein galluogi i ddangos tystiolaeth o sut rydym wedi cyfrannu at les ein dinasyddion sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth. Yn yr adroddiad hwn rydym yn manylu ar ba gynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau allweddol y gwnaethom ddweud y bydden ni'n canolbwyntio arnynt dros y 12 mis diwethaf.

O dan bob safon lles mae'r adroddiad yn nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ymarfer blaenoriaethu hwn wedi'i wneud ar ei ben ei hun ond mae'n rhan o broses gynllunio llawer mwy integredig a soffistigedig sy'n cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Yn ystod 2019-20, datblygwyd Cynllun Corfforaethol newydd. Y Cynllun Corfforaethol hwn yw dogfen gynllunio strategol drosfwaol y Cyngor sy'n adlewyrchu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Corfforaethol a'i Gynllun Cyflawni Blyneddol cysylltiedig wedi'i lunio o amgylch llais dinasyddion, ac felly dyma'r brif ddogfen rydym wedi'i defnyddio eleni i nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn i ddod (2020-21).

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu nifer o bwysau digynsail, yn cynnwys pandemig COVID-19 (Coronafeirws) a ddechreuodd amlygu ei hun yn y DU yn ystod mis Mawrth. Mae'r pandemig hwn wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein gwasanaethau ac wedi amharu'n sylweddol ar y ffordd yr ydym yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau sy'n aml yn hanfodol i'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Mae maint yr her hon, sy'n cael ei dwysáu gan lawer o rai eraill, yn debygol o roi straen enfawr ar sut rydym yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r pwysau eraill a wynebwn yn ymwneud â'n cyllidebau a'r galw cynyddol am ein gwasanaethau yng nghyd-destun anghenion cymhleth. Rydym wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn, drwy gymryd camau i ail-lunio ac integreiddio ein gwasanaethau. Er gwaethaf yr heriau mae llawer o gyflawniadau (a nodir yng ngweddill yr adroddiad hwn) y gallwn eu dathlu, sy'n dangos ymdrechion ac ymrwymiad ein staff. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff, ein partneriaid a'r cyhoedd fu'n rhan o'r gwaith hanfodol hwn.

Yn gyffredinol, gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn dangos y cynnydd yr ydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf o ran darparu dull sy'n canolbwyntio mwy ar y dinesydd.

## 2. Crynodeb Perfformiad y Cyfarwyddwr

Ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol rydym yn casglu ystod o fesurau gan bob un o'r tair isadran (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Oedolion, a Rheoli a Diogelu Adnoddau) sy'n ffurfio'r Gyfarwyddiaeth. Y gyfres hon o fesurau yw'r hyn sy'n rhoi cipolwg i ni o'n perfformiad dros y flwyddyn.

Mae'r gwaith o gasglu ac adrodd ar y data perfformiad hwn bellach yn cael ei gasglu drwy System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC). Fodd bynnag, yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 presennol, mae'r gwaith o gasglu ac adrodd am werth blwyddyn lawn o ddata perfformiad wedi'i leihau o ganlyniad i adnoddau'n cael eu hailgyfeirio i'r rheng flaen.

Oherwydd COVID-19 ni fu'n bosibl cyflwyno perfformiad blwyddyn lawn ond amlinellir isod grynodeb o berfformiad a oedd ar gael ar gyfer diwedd y flwyddyn.<sup>1</sup>

### Uchafbwyntiau Perfformiad

- Rydym yn parhau i weithredu ymhell o fewn ein targed ar gyfer ail-gofrestru plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, yn chwarter 4 (2019/20) roedd 1.18% yn ail-gofrestriadau sy'n llawer gwell na pherfformiad Cymru Gyfan ac sy'n parhau o fewn ein targed o 5% ar gyfer y flwyddyn.
- Yn chwarter 4, cafodd 5.96% o'r Plant sy'n Derbyn Gofal ddychwelyd adref o ofal yn ystod y flwyddyn
- Mae cefnogi plant i aros gyda'r teulu neu ddychwelyd adref wedi parhau i fod yn ffocws cyson i'r adran. Yn chwarter 4, cafodd 74.73% o'r plant eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu.
- Roedd 97.03% o Blant sy'n Derbyn Gofal wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu. Mae hyn wedi parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Tîm Lleoli yn ystod 2019/20 er mwyn sicrhau bod gofalywyr yn cofrestru plant yn eu gofal yn brydlon.
- Mae rheoli sefydlogrwydd lleoliadau yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ein perfformiad yn y maes hwn wedi gwella o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, oherwydd yn ystod Chwarter 4 2018/19 profodd 7.77% o Blant sy'n Derbyn Gofal dri newid neu fwy o gymharu â 6.36% yn 2019-20. Mae ein perfformiad yn y maes hwn yn parhau i fod o fewn ein targed o 9%.
- Rydym yn parhau i weithio'n rhagweithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi a chynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal i gymryd rhan mewn addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gwyddys bod 52.17% o bobl sydd wedi gadael gofal yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal yn ystod chwarter 4 2019/20.
- Rydym wedi cael llwyddiant mawr o ran ein pecynnau cymorth ail-alluogi a'n gallu i symud ymlaen at becynnau lefel is mewn modd amserol sy'n galluogi unigolion i allu byw'n fwy annibynnol eto. Rydym wedi rhagori ar berfformiad Cymru gyfan (fel yn chwarter 4 2019/20) mewn perthynas ag ail-alluogi. Roedd gan 17.51% o oedolion a dderbyniodd gymorth ail-alluogi becyn llai o ofal a chymorth ar ôl dim ond 6 mis. Nid oedd angen unrhyw becyn gofal a chymorth ar ôl 6 mis ar 81.11% pellach o oedolion a gafodd gymorth ailalluogi yn flaenorol.

<sup>1</sup> Dylid nodi ar gyfer ciplun o'r perfformiad y gallai'r ffigurau hyn newid oherwydd prosesau glanhau a dilysu data.

- Rydym wedi parhau i hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau Teleofal i gefnogi ein defnyddwyr gwasanaeth i barhau i fyw'n annibynnol. Roedd y nifer a fanteisiodd ar Teleofal yn ystod 2019/20 (400) yn fwy na'r disgwyl o'i gymharu â'n targed o 375.

### Meysydd perfformiad y mae angen eu gwella:

Mewn perthynas â'n heithriadau perfformiad (mesurau statws coch):

- Yn chwarter 4 2019/20, dim ond 63.7% o asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol. Mae hwn yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder i ni sydd angen sylw ychwanegol. O ganlyniad, mae cynllun gweithredu cysylltiedig ar gyfer gwella wedi'i roi ar waith. Mae'r materion sy'n cael eu profi yn ymwneud yn benodol â'r angen i sicrhau penderfyniadau amserol mewn perthynas ag atgyfeiriadau a dderbynnir ac yna dyrannu ar gyfer asesiad lle bo angen gwneud hynny. Cytunwyd ar gamau gweithredu i fynd i'r afael ag arbedion effeithlonrwydd o fewn y System Ddyletswydd a chapasiti o fewn y swyddogaeth hon ac o fewn y tîm ehangach. Yn gadarnhaol, mae dadansoddiad o'r data yn dangos bod asesiadau wedi'u cwblhau'n brydlon ar ôl eu dyrannu. Drwy gymryd camau cadarnhaol, rydym yn rhagweld y byddwn yn gweld sefyllfa well o chwarter 4 ymlaen.
- Er ein bod wedi perfformio'n dda yn gyson o ran sicrhau bod y rheiny sydd wedi gadael gofal yn parhau i fod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl cyfnod o 24 mis, mae hyn wedi bod yn fwy heriol ar ôl cyfnod o 12 mis. Er enghraifft, yn chwarter 4 2019/20, dim ond 45.45% o'r rheiny a oedd wedi gadael gofal yr adroddwyd eu bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant 12 mis ar ôl gadael gofal. Mae'r tîm 15+ yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner i wella'r canlyniadau i bobl ifanc ac wedi cynyddu nifer y cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau o fewn y cyngor.
- 68.3% o gynlluniau gofal a chymorth i oedolion. Gall y duedd tuag i lawr o ran perfformiad fod yn gysylltiedig â heriau yr ydym wedi'u profi wrth gofnodi ac adrodd data drwy SGGCC. Er bod y system newydd wedi creu anawsterau o ran sut rydym yn cofnodi ac yn adrodd ar rai agweddau ar ein gwaith, mae glanhau ein data i sicrhau ei gywirdeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth barhaus.
- Er bod 87.3% o gynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlenni statudol, mae hyn yn parhau i gynrychioli tanberfformiad o'i gymharu â'n targed o 91%. Er nad ydym wedi cyrraedd ein targed disgwylidig, bydd ffocws ychwanegol ar y rheswm pam nad yw adolygiadau wedi'u cynnal o fewn amserlenni a bydd gwaith parhaus yn cael ei wneud i ddeall a gwella adolygiadau.
- Mae ein perfformiad o ran Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn parhau i fod yn her barhaus sylweddol oherwydd capasiti a hyfywedd y sector cartref sy'n effeithio'n negyddol ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Yn ystod chwarter 4 2019/20 cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal oedd 4.79 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn erbyn ein targed o 3.5. Er bod hyn yn parhau o fewn y targed ar hyn o bryd ac yn cynrychioli gwelliant ar berfformiad o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau hyn, rydym yn gweithio'n barhaus gyda'r sector gofal cartref annibynnol a'n gwasanaeth gofal ailalluogi ein hunain i gynyddu'r capasiti hwn.

Mae COVID-19 yn debygol o gael effaith sylweddol ar y galw am ein gwasanaethau a sut rydym yn darparu'r gwasanaethau hyn nawr ac yn y dyfodol. Yr her gyffredinol y byddwn yn ei hwynebu fydd sut rydym yn parhau i gynnal y broses o ddarparu gwasanaethau a pherfformiad tra'n rheoli'r galw ar adeg pan fo'r Pandemig wedi rhoi straen ar ein hadnoddau. Yng nghanol yr ansicrwydd hwn mae cyfleoedd i archwilio ffyrdd newydd o

weithio i drawsnewid ein gwasanaethau. O ystyried bod COVID-19 yn debygol o barhau i effeithio ar ein polisi a'n tirwedd deddfwriaethol am beth amser mae ein blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2020/21 wedi'u llunio gyda hyn mewn golwg. Yn yr un modd, rydym yn ymwybodol bod ansefydlogrwydd y sefyllfa'n golygu y bydd datblygiadau yn y dyfodol yn dylanwadu ar gynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21 yn ystod ein hadferiad. Wrth i ni drosglwyddo o'n hymateb i'r cyfnod adfer, mae'n rhoi cyfleoedd i ni ystyried yr hyn rydym wedi'i ddysgu a datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o'r heriau sydd o'n blaenau. Yng nghyd-destun COVID-19, mae nifer o heriau allweddol yr ydym yn rhagweld y bydd ein Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu hwynebu dros y flwyddyn i ddod fel a ganlyn (2020/21):

### **Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc**

- Mae nifer cynyddol o Blant sy'n Derbyngofal y mae eu hanghenion/amgylchiadau yn rhoi mwy o bwysau ar ein cyllidebau. Er ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar leihau costau a sefydlogrwydd lleoliadau a lleihau ein dibyniaeth ar y sector annibynnol a lleoliadau y tu allan i'r ardal, mae nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sy'n cyflwyno anghenion mwy cymhleth sy'n gofyn am leoliadau cost uwch.
- Yn gysylltiedig â'r niferoedd cynyddol o Blant sy'n Derbyngofal, mae mwy o ffocws ar drefniadau perthnasau. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau presennol, oherwydd y gofyniad i asesu perthnasau fel gofalgwyr maeth. O ganlyniad, mae mwy o achosion cymhleth yn mynd i achosion gofal drwy'r Llys Teulu sy'n cynyddu gwariant ar ofynion cyfreithiol ac yn effeithio ar gapasiti ein Timau Gofal Plant.
- Mae ein gallu i ateb y galw cynyddol am wasanaethau cymorth i blant a theuluoedd er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu tra'n lleihau dyblygu wrth ddarparu gwasanaethau yn her. I helpu i fynd i'r afael â hyn rydym wedi parhau i fuddsoddi ein hadnoddau i gynyddu ein capasiti ar y rheng flaen i wella prydlongdeb asesiadau o angen a risg a galluogi cyfeirio'n briodol at wasanaethau eraill. Mae hyn wedi bod yn ffordd effeithiol o atal materion rhag gwaethygu a lleihau'r pwysau ar dimau Gwaith Cymdeithasol.
- Mae'r twf mewn atgyfeiriadau i'r Gydweithfa Fabwysiadu Ranbarthol (Cydwethfa Fabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd) yn effeithio ar bob un o'r pedwar awdurdod cydweithredol. Mae prinder mabwysiadwyr addas i ateb y galw o ran nifer y plant sydd angen cael eu mabwysiadu.
- Er mwyn darparu gwasanaethau cymorth cynaliadwy i blant a theuluoedd, mae arnom angen gweithlu sydd â'r sgiliau cywir i ymateb i'r dirwedd ddeddfwriaethol sy'n esblygu a'r angen i weithredu ar sail ranbarthol. Mae hyn yn gofyn am newid i ganlyniadau wedi'u cyd-gynhyrchu lle mae'r plant a'r bobl ifanc, y rhieni a'r gofalgwyr yn bartneriaid cyfartal wrth gynllunio a diwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

### **Gwasanaethau Oedolion**

- Yn sgil yr Adolygiad Seneddol o lechyd a Gofal Cymdeithasol, mae mwy o bwyslais ar ddatblygu a gweithredu trefniadau i'n galluogi i ymgymryd â chomisiynu rhanbarthol.
- Er gwaethaf ein dull blaengar o weithio gyda phartneriaid, mae cydweithredu mewn perthynas â datblygu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau yn parhau'n her barhaus mewn hinsawdd o adnoddau sy'n lleihau.
- Mae ein gallu i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal ymhellach yn parhau i fod yn her barhaus, yn enwedig yng nghyd-destun argyfwng y Coronafeirws. Mae pwysau

cyllidebol ac argaeledd gofal cartref wedi effeithio ar ein perfformiad yn y maes hwn.

- Bydd mynd i'r afael â breuder gwasanaethau a sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni feithrin mwy o wydnwch a chapasiti mewn timau. Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol mewn perthynas ag Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy a swyddi eraill 'anodd recriwtio iddynt'.
- Mae anwadalrwydd ffrydiau arian grant yn effeithio ar ein gallu i ddatblygu, comisiynu a chynnal gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n gwella ein capasiti i ddarparu gwasanaethau arloesol nawr ac yn y dyfodol.

### Rheoli a Diogelu Adnoddau

- Mae diffyg capasiti a gwydnwch mewn marchnadoedd lleol i fodloni gofynion Gofal Cartref a Nyrsio Preswyl ac argaeledd lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae monitro sicrwydd ansawdd ein darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn allanol yn fwyfwy heriol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau i ymgymryd â'r gwaith hwn, sy'n cael ei ddwysáu ymhellach gan anwadalrwydd marchnadoedd allanol.
- Y gallu i gyflawni lefel y newid trawsnewidiol sy'n ofynnol fel rhan o Raglen Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol a'n rhaglen waith ranbarthol.
- Cryfhau'r ffordd rydym yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu'n effeithiol y strategaeth ar gyfer Llety gyda Gofal sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion ein dinasyddion.
- Pwysau ar ein gallu i sicrhau bod ein gweithdrefnau diogelu yn parhau'n gadarn a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson.
- Mae'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gofynion Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn parhau i roi pwysau sylweddol ar yr adran o ran llwyth gwaith/capasiti swyddogion a chyllidebau. Mae angen adolygu a monitro'r gwasanaeth hwn er mwyn nodi dulliau ac adnoddau i wella ei gapasiti.



### 3. Sut Mae Pobl Yn Llunio ein Gwasanaethau?

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn rhan hanfodol o wella ansawdd ein gwasanaethau a ddarperir, nid yn unig am ein bod yn gwerthfawrogi barn ein dinasyddion a'u profiad o'n gwasanaethau ond hefyd am fod eu llais yn chwarae rhan sylfaenol wrth drawsnewid y gwasanaethau a ddarperir mewn ffordd a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar ein rhaglen dreigl o ymgynghoriadau sy'n ein helpu i werthuso ein gwasanaethau a llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn wedi canolbwyntio ar archwilio meysydd gwasanaeth penodol i ganfod lefelau boddhad ac i lywio gwelliannau i bolisi, ymarfer a darparu gwasanaethau. Yn ystod 2019/20, cynhaliwyd chwe ymgynghoriad penodol i'r gwasanaeth a oedd yn cynnwys: Gwasanaeth Maethu, Gwasanaethau Gofal Preswyl, Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion, y Tîm Adnoddau Cymunedol, Gwasanaethau Dydd a Dechrau'n Deg. Wedi'i amlinellu isod mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r gwaith hwn.



### **Gwasanaethau Maethu**

Anfonwyd holiaduron electronig neu bost at 107 o ofalwyr maeth. Cafwyd cyfanswm o 19 o ymatebion i'r holiadur (16 o ofalwyr prif ffrwd a 3 gofalwr sy'n berthnasau), sef cyfradd ymateb o 18%. Yn ogystal â hyn, mynychodd 25 o ofalwyr maeth fforwm gofalwyr maeth a thrafodwyd themâu a oedd wedi codi o ganlyniad yr holiaduron.

Amlygodd yr ymgynghoriad y ffaith, ar y cyfan, fod gofalwyr maeth yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth ynghylch y broses asesu ac yn hapus â'r cymorth a gawsant gan y Tîm Lleoliadau. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn deall rôl gofalwr maeth a'r hyn a ddisgwyliid ganddynt. O ran paru, lle bu digon o amser, roedd gofalwyr maeth yn teimlo eu bod yn barod ar gyfer y lleoliad. Roedd angen mwy o wybodaeth am gefndir y person ifanc mewn rhai achosion, ond mewn achosion brys nid yw hyn bob amser yn bosibl. Roedd y rhan fwyaf o ofalwyr yn fodlon ar yr hyfforddiant a gawsant er bod rhai yn teimlo y gallai fod yn fanylach.



### **Ymgynghoriad Gwasanaethau Preswyl**

Mae'r preswylwyr a'r staff yn cynnal cyfarfodydd misol rheolaidd ym mhob un o'r pedwar cartref gofal i ymgysylltu â'r preswylwyr a'r staff a deall eu safbwyntiau. Yn ystod 2019/20, cysylltwyd â pherthnasau gyda holiadur electronig a phost, a chawsant gyfle hefyd i fynychu cyfarfodydd preswylwyr i gael y cyfle i roi eu barn. Cynhelir y cyfarfodydd ym mhob un o'n pedwar cartref preswyl sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor; Cartref

Porthceri, Southway, Tŷ Dyfan a Thŷ Dewi Sant. Roedd y themâu'n cynnwys boddhad â'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan y cartref preswyl, rhyngweithio cymdeithasol a bywyd bob dydd.

### **Canfyddiadau allweddol gan breswylwyr**

Roedd y preswylwyr yn hapus gyda'r wybodaeth yr oeddent wedi'i chael cyn iddynt symud i'w lleoliadau gofal, yn enwedig pan ddaethant am ymweliad amser te. Roedd y preswylwyr yn teimlo'n eithaf bodlon bod staff ar gael i'w helpu, er eu bod yn cydnabod nad oes gan y staff amser bob tro i stopio a siarad. Roedd llawer yn teimlo yr hoffent i rywun dreulio mwy o amser gyda nhw, ond roeddent yn deall nad oedd hyn bob amser yn bosibl. Roedd llawer wedi mwynhau'r cyfleoedd i siarad â phlant a ymwelodd o'r ysgol leol. Pan fo gweithgareddau'n cael eu trefnu, roedd preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u hannog i ymuno, ond hoffai rhai gael mwy o gyfleoedd i fynd allan. Roedd llawer yn falch o'r gweithgareddau a oedd ar gael i gefnogi pobl â dementia, yn enwedig y bwrdd cof a'r ymweliadau â'r Jar Cof. Roedd llawer o ganmoliaeth i'r staff a pha mor dda oedd y gofal, ac roedd llawer yn teimlo bod y ffaith bod rhywun yno pan oedd angen hynny arnynt yn galonogol iawn.

### **Canfyddiadau allweddol i berthnasau**

Ymatebodd 23 o berthnasau sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 30% ar draws y pedwar lleoliad preswyl.

Roedd perthnasau'n falch o'r wybodaeth a gawsant am y cartref, a'r croeso a gafodd eu perthynas wrth symud i mewn i'r lleoliad gofal. Nododd llawer o berthnasau eu bod yn falch iawn o agwedd gyffredinol y staff a'u parodrwydd i helpu eu perthnasau i deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu hannog i ymuno â gweithgareddau. Mae perthnasau'n teimlo eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y staff a'u bod yn trin y preswylwyr â pharch.



Roedd bron pob un o'r perthnasau yn teimlo bod lles y preswlydd wedi gwella o ganlyniad i'r gofal a'r cymorth y mae wedi'i dderbyn.



### **Gwasanaeth Lleoli Oedolion**

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ym mis Medi 2019 yn cynnwys lleoliadau, pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a theuluoedd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

### **Canfyddiadau allweddol ar gyfer unigolion sy'n defnyddio'r**

#### **gwasanaeth**

Nododd y bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion eu bod yn teimlo'n fodlon â'r cymorth maen nhw'n ei gael a'u bod wedi cael profiadau cadarnhaol yn eu lleoliad. Roedd pobl yn teimlo y gallent gymryd rhan mewn hobiau a gweithgareddau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, tra'n aros yn y lleoliadau. Roedd llawer yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda i gynnal eu hiechyd a'u lles a'u bod yn gallu cyflawni tasgau i gynyddu eu hannibyniaeth.

### **Canfyddiadau allweddol ar gyfer Aelodau'r Teulu**

Roedd aelodau'r teulu yn teimlo bod y gwasanaeth wedi ystyried yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a'u bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

### **Canfyddiadau allweddol ar gyfer Lleoliadau**

Mae'r lleoliadau yn teimlo bod y wybodaeth maen nhw wedi'i chael yn glir a bod y gefnogaeth gan y gwasanaeth yn ddefnyddiol. Mae lleoliadau yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses adolygu a bod eu barn yn cael ei hystyried.



### **Dechrau'n Deg**

Mynychodd rhieni a oedd yn defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg grŵp ffocws a rhoddwyd cyfle iddynt hefyd lenwi holiadur pan oeddent yn casglu eu plentyn o'r lleoliadau gofal plant. Mynychodd naw o bobl grŵp ffocws ac ymatebodd 16 i holiadur.

Yn gyffredinol, nododd y rhieni eu bod yn fodlon iawn â darpariaeth gwasanaeth Dechrau'n Deg, yn enwedig y cymorth a'r amser y mae'r staff yn ei dreulio gyda hwy yn ystod ymweliadau. Roedd y rhieni'n teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth am y gwasanaeth. Roedd rhai yn teimlo yr hoffon nhw gael ychydig mwy o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, yn enwedig i blant sydd ychydig yn hŷn. Ar y cyfan, roedd y rhieni'n teimlo bod y cyfathrebu yr oeddent yn ei gael yn dda iawn a bod y staff bob amser yn gymwynasgar ac yn eu hannog i ymuno. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod eu hyder o ran rhianta wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen.



### **Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro**

Ymgynghorwyd ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth gan Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro yn Ysbyty'r Barri. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd sicrhau bod pobl yn cael safonau uchel o ofal a chymorth i'w galluogi i gynnal eu hannibyniaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Bob mis, fe wnaethom ysgrifennu at bob unigolyn a oedd wedi cwblhau'r cymorth gan y gwasanaeth. Anfonwyd cyfanswm o 326 o holiaduron rhwng mis Mawrth 2019 a mis Chwefror 2020. Dychwelwyd 123 sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 38%.

Dyweddod bron pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd ei (h)angen arnynt a'u bod yn teimlo eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu am eu hanghenion gofal a chymorth. Mae'r gofal a chymorth gan y gwasanaeth wedi helpu pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, ac mewn rhai achosion wedi eu helpu i deimlo'n rhan o'u cymuned leol eto. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn wir gan fod llawer yn byw ar eu pennau eu hunain ac yn ei chael hi'n anodd cymdeithasu. Yn gyffredinol, teimlai ymatebwyr fod y gwasanaeth wedi eu helpu i deimlo'n fwy diogel, yn eu cartrefi a'r tu allan iddynt. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi bod yn rhan o benderfyniadau am y gofal y maent wedi'i gael, a'u bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd dros hanner wedi dweud bod y gwasanaeth yn "rhagorol", a'r gweddill wedi dweud bod y gwasanaeth yn "dda". Pan ofynnwyd iddynt beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda, nododd llawer ohonynt pa mor rhagorol oedd y staff, gan eu disgrifio fel rhai cymwynasgar, gofalgarg a chadarnhaol.



## Gwasanaethau Dydd

### **Gwasanaeth Dydd Woodlands**

Nod y Gwasanaeth Dydd Anableddau Dysgu yw hybu annibyniaeth a datblygu sgiliau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ceisio rhoi cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chyfoethogi ansawdd bywyd pobl yn y gymuned. Yn ystod 2019/20 cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau lled-strwythuredig gydag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Amlygodd y cyfweiliadau fod y defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo bod y staff i gyd yn groesawgar a chyfeillgar iawn. Soniodd llawer am ba mor gymwynasgar yw'r staff a'u bod nhw'n hapus i fod yno. Roeddent yn teimlo bod y gweithgareddau'n amrywiol megis sgiliau byw'n annibynnol, ymarfer corff, cerddoriaeth, dysgu gydol oes a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau. Cytunodd yr holl gyfweleion fod ganddynt ddewisiadau o ran yr hyn y gallant ei wneud yn ystod eu hamser yn y Gwasanaeth Dydd, a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn eu helpu. Mae'r cyfleoedd a ddarperir gan y gwasanaeth wedi eu helpu i ddysgu sgiliau newydd ac wedi gwella'r ffordd y maent yn teimlo am eu bywydau.

### **New Horizons**

Mae Canolfan Ddydd New Horizons yn darparu gwasanaeth i bobl ag anabledd corfforol yn y gymuned. Yn ystod 2019/20 ymgynghorwyd ag 16 o unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb. Nododd y rhan fwyaf o'r cyfweleion eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth yr oeddent yn ei gael a'u bod yn teimlo bod y staff wedi bod yn groesawgar iawn pan ddechreuon nhw yn y Ganolfan Ddydd.

Canfu'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw ar eu pennau eu hunain fod y gwasanaeth yn rhoi cyfle iddynt ryngweithio ag eraill. Roedd yr holl gyfweleion yn teimlo'n ddiogel yn gorfforol ac yn emosiynol yn y ganolfan gan esbonio ei fod fel "hyb" lle mae'r bobl yn deall eu sefyllfa ac mae wedi helpu i leihau eu hymdeimlad o unigedd cymdeithasol.

Ar y cyfan, roedd y defnyddwyr gwasanaeth a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y gwasanaeth yn rhoi pwrpas iddynt yn eu bywydau.

### **Perthnasau Unigolion sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Dydd**

Rhoddwyd holiaduron post i berthnasau unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu i'w llenwi a'u dychwelyd. Dychwelwyd cyfanswm o ddeg holiadur. Roedd perthnasau'n teimlo bod y ddarpariaeth gwybodaeth yn dda yn y rhan fwyaf o achosion, a bod y cymorth gan y staff yn "rhagorol" ym mhob achos bron a bod.

Roedd perthnasau hefyd yn fodlon gyda'r cyfleusterau a'r offer yn y canolfannau ac yn teimlo bod y gwasanaeth dydd yn darparu cyfleoedd gwyb ar gyfer pobl o bob gallu. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth yn rhoi cyfleoedd i'w perthnasau rymgweithio'n gymdeithasol, gan ffurfio cyfeillgarwch a'u helpu i ddatblygu trefn gyson a sefydlog. Nododd yr ymatebwyr hefyd eu bod o'r farn bod y gwasanaeth yn ffynhonnell werthfawr o gymorth i berthnasau/gofalwyr o ran seibiant a'r gallu i gael amser i'w hunain gan wybod bod eu perthynas yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth dda.

## 4. Canmoliaethau a Chwynion



### 4.1 Canmoliaethau

Mae canmol yn ffordd hanfodol o nodi'r hyn rydym yn ei wneud fel y gallwn ddefnyddio a rhannu'r profiad a'r dysgu hwn mewn modd effeithiol yn ehangach ar draws ein gwasanaethau.

Yn ystod 2019/20, cafwyd 28 canmoliaeth ar draws y Gwasanaethau Oedolion, Plant a Phobl Ifanc a'r Adrannau Rheoli a Diogelu Adnoddau. Roedd y canmoliaethau hyn yn ymwneud â'r gwasanaethau a'r cymorth a gafodd defnyddwyr gwasanaethau ac roedd aelodau penodol o staff yn aml yn cael eu henwi pan oeddent yn teimlo bod unigolyn wedi mynd yr ail filltir.

I roi'r data hwn yn ei gyd-destun, amlinellir isod gipolwg o rai o'r canmoliaethau a gawsom gan ddefnyddwyr gwasanaeth:

'Rydym yn ddiolchgar iawn am waith arbenigol X gydag achos' 'gweithredodd er lles gorau'r person gan gydweithio â ni, gwranddo arnon ni a'n helpu i reoli argyfwng'.

'Diolch am y cymorth ragorol a roddwyd i fy nhad gan y gwasanaethau cymdeithasol' a'r 'gofal a'r sylw a roddwyd'

'Diolch am eich help i ddelio gyda'r holl fiwrocratiaeth a'r ffurflenni wrth ddod o hyd i qartref newydd i Mam'.

'Diolch am y cymorth, bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'm hanghenion dyddiol'

Roeddwn wir mewn argyfwng o ran gofal plant. Doedd gen i unman i droi ac yn meddwl mai gadael fy swydd oedd yr unig ddeuwis. Es i i ysgol fy mab ac fe gyfeirion nhw fi at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro sydd wedi gweithio mor galed ar ein rhan, gan ein diweddarau bob

'Mae Mam wrth ei bodd gyda'r cloc siarad. Rydym yn sicrhau ei bod yn hunan-warchod rhag y Coronafeirws ond yn sicrhau nad yw'n cael ei hynysu'n gymdeithasol. Diolch.'

## 4.2 Cwynion

Rydym wedi parhau i gynnal ein dull o ymdrin â chwynion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, gallwn ddeall y materion o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth yn gyntaf ac mae hefyd yn ein galluogi i gywiro a dysgu o unrhyw gamgymeriadau.

Mae'r Swyddog Cwynion yn mynd ati'n rhagweithiol i atal a chyfyngu materion sydd â'r potensial i arwain at gŵyn. Mewn rhai achosion, gall dinasyddion gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol heb wybod p'un a yw eu pryder yn cyfateb i gŵyn ffurfiol ai peidio. Yn yr achosion hyn, mae'r Swyddog Cwynion yn cynnig cyfarfod â hwy i geisio helpu i egluro'r materion a gwrandao ar eu pryderon. Mae'r dull hwn yn parhau i fod yn ffordd werthfawr ac effeithiol o gael datrysiaid cynnar i lawer o bryderon.

Ar 31 Mawrth 2019, datryswyd 43% o fewn yr amserlenni dynodedig<sup>2</sup>. Mae bodloni'r amserlenni dynodedig ar gyfer cwynion yn fwyfwy heriol oherwydd cymhlethdod a natur amlochrog y cwynion a dderbyniwn a all effeithio ar amseroldeb ein hymateb, yn enwedig lle mae angen cyngor cyfreithiol. Er bod ychydig llai na hanner y cwynion wedi'u datrys o fewn amserlenni dynodedig, dylid nodi bod yr achwynwyr, ym mhob achos, wedi cael gwybod am y rheswm dros ymestyn yr amserlenni ac wedi cytuno ar y cyd i estyniad. Er nad yw hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r canllawiau statudol. Rydym yn monitro ein cwynion yn gadarn, ac yn wythnosol mae'r Swyddog Cwynion yn dosbarthu adroddiad i bob Uwch Reolwr i dynnu sylw at unrhyw gwynion posibl y mae angen eu dilyn. Mae hwn wedi bod yn arf uwchgyfeirio effeithiol i atgoffa rheolwyr o bwysigrwydd ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni gofynnol.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad llawn o'r holl gwynion, ymholiadau a chanmoliaethau ddaeth i law yn 2019/20.

Is-adran Gwasanaeth	Ymholiadau	Cwynion Cam 1	Cwynion Cam 2	Ombwdsmon	Ymatebwyd o fewn yr Amserlenni	Cyfanswm y cwynion a'r ymholiadau a dderbyniwyd
Gwasanaethau Oedolion	22	13	1	0	10	36

<sup>2</sup> Yr amserlen ddynodedig ar gyfer ymateb i gwynion Cam 1 yw 10 diwrnod gwaith a 5 diwrnod gwaith arall i gadarnhau canlyniad y drafodaeth ac ar gyfer Cam 2 yr amserlenni yw 25 diwrnod gwaith.

Gwasanaetha u Plant a Phobl Ifanc Rheoli a Diogelu Adnoddau	32	23	7	4	9	66
	4	7	1 <sup>3</sup>	0	5	12

Roedd y rhan fwyaf (11) o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2019/20 yn ymwneud ag aelod o staff ac roedd yr ail rif uchaf (9) naill ai am fod yr achwynydd yn anhapus â'r gofal yr oedd wedi'i dderbyn neu gydag ansawdd/lefel y gwasanaeth a oedd ar gael. Roedd y meysydd cwyno eraill yn ymwneud â naill ai taliadau am wasanaethau, cyfathrebu neu bethau eraill.

<sup>3</sup> Cafodd y gŵyn ei chofnodi'n flaenorol yn y flwyddyn flaenorol, ond cafodd ei hailagor yn ystod 2019/20.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o natur cwynion fesul Adran.

Math o gwyn	Gwasanaethau Oedolion	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	Rheoli a Diogelu Adnoddau	Cyfanswm y cwynion yn ôl natur y gwyn
Codi tâl am wasanaethau	3	0	5	8
Diffyg ymateb	-	1	0	1
Ansawdd/lefel y gwasanaeth	5	3	1	9
Cwyn am staff	2	9	-	11
Anhapus â'r gofal a ddarperir	2	7	-	9
Cyfathrebu	1	3	-	4
Arall	0	1	1	2

Yn ystod 2019/20 mae crynodeb o'r gwersi allweddol a ddysgwyd yn cynnwys:

- Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol â theuluoedd a defnyddwyr gwasanaethau.
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd yn deall y broses codi tâl mewn perthynas â lleoliadau preswyl.
- Sicrhau bod unrhyw ymrwymiad i ymateb i alwadau/llythyrau/negeseuon e-bost yn cael ei ddilyn.
- Deallwyd pwysigrwydd egluro'n glir y rhesymeg dros wneud penderfyniadau a gwirio.
- Pwysigrwydd ymateb i bryderon/ymholiadau yn brydlon er mwyn osgoi uwchgyfeirio.
- Pwysigrwydd staff yn ymddwyn yn broffesiynol bob amser.
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth/teuluoedd yn deall cyfyngiadau ein hadnoddau a'n gwasanaethau e.e. mewn perthynas ag amseroedd aros ar gyfer asesiadau.

## 5. Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheinyr Ydym yn eu Helpu



Mae'r adran hon o'n Hadroddiad Blynyddol yn nodi ein perfformiad wrth hyrwyddo a gwella'r agweddau allweddol ar Les pobl ym Mro Morgannwg sydd angen gofal a chymorth, a gofalywyr sydd angen cymorth. Ar ddiwedd pob adran, mae'r adroddiad yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21.



### 5.1 SAFON LLES 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

#### Trosolwg o'r Perfformiad

##### Mesurau Ansoddol

Dywedodd 95% o bobl eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r cyngor cywir pan oedd angen hynny arnynt.

Dywedodd 98% o bobl eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd 100% o bobl â chynllun gofal a chymorth eu bod wedi cael gwybodaeth am eu gweithiwr penodol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dywedodd 94% o bobl eu bod yn teimlo eu bod wedi bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a chymorth

Roedd 94% o bobl yn fodlon â'r gofal a'r cymorth a dderbyniwyd.

##### Mesurau Meintiol

Cafodd 63.70% o asesiadau i blant eu cwblhau o fewn amserlenni.

#### Beth roedden ni wedi bwriadu ei wneud y llynedd?

O ran 2019/20 gwnaethom nodi dwy flaenoriaeth i'w cyflawni:

- Gwella'r ffordd y rheolir ein dull o ymdrin â galwadau gyda gostyngiad mewn amseroedd aros ar gyfer mewnbyn gwaith cymdeithasol.
- Cryfhau ein dull o gyd-gynhyrchu yn effeithiol er mwyn sicrhau y gallwn weithio'n effeithiol gyda'n dinasyddion iau a'u cynnwys er mwyn diwallu eu hanghenion gofal a chymorth yn y ffordd orau.

## I ba raddau wnaethon ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethon ni?



### ***Gwella'r ffordd y rheolir ein dull o ymdrin â galwadau gyda gostyngiad mewn amseroedd aros ar gyfer mewnbwn gwaith cymdeithasol.***

Mae darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn parhau i fod yn nodwedd ganolog o'n gwaith yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ystod 2019/20, amlygodd ein harolygon defnyddwyr gwasanaeth fod 95% o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd angen hynny arnynt. Mae rheoli ac ymateb i'r galw am ein gwasanaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall ein gwasanaethau ddiwallu anghenion ein dinasyddion orau yn y ffordd fwyaf dyfeisgar ac effeithiol. O ganlyniad, mae Canolfan Gyswllt y Cyngor wedi bod yn hanfodol i ni reoli'r galw am ein Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Prif ffocws y gwaith fu gwella'r Tîm Derbyn ac Asesu sy'n gweithredu o Ganolfan Gyswllt y Cyngor (Cyswllt Un Fro) i:

- gwella'r ffordd y rheolir ein dull o ymdrin â galwadau; a
- lleihau amseroedd aros ar gyfer mewnbwn gwaith cymdeithasol.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

- Gwella ein systemau teleffoni i wella ein prosesau trin galwadau.
- Sicrhau adnodd trin galwadau pwrpasol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.
- Defnyddio arian grant i fuddsoddi mewn creu a recriwtio Swyddogion Lles i ategu'r Tîm Derbyn ac Asesu presennol yng Nghanolfan Gyswllt y Cyngor.
- Defnyddio'r Swyddogion Lles a'n adnodd trin galwadau pwrpasol i sefydlu tîm a fydd yn ymgymryd â swyddogaeth allgymorth, sgrinio atgyfeiriadau'r Gwasanaethau Oedolion, cynnal asesiadau cyfatebol a chynnal ymweliadau cartref.

## **Llwyddiannau Allweddol:**

### **Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:**

✓ Drwy fuddsoddi mewn capasiti arbenigol ar y rheng flaen ar ffurf Swyddogion Lles rydym wedi gallu ailgyfeirio pobl yn llwyddiannus yn briodol a, lle y bo'n bosibl, eu cyfeirio at atebion eraill mwy priodol.

✓ Mae'r gwelliannau hyn wedi galluogi dinasyddion i gael gafael ar ystod lawn o wybodaeth, cyngor a chymorth yn ddi-oed ac mae wedi darparu penderfyniadau cyflymach gyda'r gallu i ddatblygu ymyriadau gwaith cymdeithasol lle bo'n briodol a chynnig cymorth lefel is drwy ddulliau amgen. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, rydym wedi lleihau'r pwysau ar dimau gwaith cymdeithasol y Gwasanaethau Oedolion. Mae hyn yn ei dro wedi rhyddhau capasiti i'n timau gwaith cymdeithasol ganolbwyntio ar yr atgyfeiriadau lle maent yn fwy cymhleth eu natur.

✓ Mae sefydlu adnodd trin galwadau pwrpasol wedi gwella ein gallu i ymateb yn effeithiol i anghenion ein dinasyddion mewn ffordd fwy amserol, gyda'r adnoddau cywir a'rcymysgedd sgiliau mwyaf priodol.



Un o ganlyniadau allweddol y gwaith hwn fu'r gostyngiad yn yr amseroedd aros ar gyfer ymatebion y Gwasanaethau Oedolion. Mae'r Tîm Derbyn ac Asesu wedi gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Gyswilt i leihau amseroedd aros. Er enghraifft, ar 4 Tachwedd 2019 roedd 284 yn y ciw a gafodd ei ostwng yn sylweddol i 72 erbyn 3 Rhagfyr 2019.

✓ Mae'r Tîm Therapi Galwedigaethol wedi parhau i ddarparu asesiadau ar gyfer offer ac addasiadau i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain ac i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal gydag offer a aseswyd i ddiwallu anghenion. Mae'r tîm wedi gallu parhau ag ymweliadau yn ystod pandemig COVID-19 i atal methiant o ran gofal neu'r angen i gleifion fynd i'r ysbyty oherwydd diffyg offer addas. Mae Therapydd Galwedigaethol yn gweithio yn y Tîm Datrysiadau Llety i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty pan nodir anghenion Tai. Mae contract wedi'i sefydlu ar gyfer darparu Gwasanaethau Synhwyrdd ar gyfer asesu arbenigol a darparu cyfarpar.

## Heriau allweddol:

### Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:

✓ Er bod y capasiti ychwanegol ar ffurf Swyddogion Lles wedi bod yn llwyddiannus, ni theimlwyd effaith hyn ar unwaith gan y bydd deiliaid y swyddi newydd hyn yn cymryd amser i gyfarwyddo ac addasu i'w rolau newydd a chryfhau eu sylfaen wybodaeth.

✓ Mae'r pwysau ar ein timau gwaith cymdeithasol wedi cael ei effeithio ymhellach gan bandemig COVID-19. Yn aml, mae gan y rheiny sydd fwyaf agored i niwed ac y gofynnwyd iddynt hunan-warchod anghenion mwy cymhleth ac maent yn fwy tebygol o fod angen ymyrraeth gwaith cymdeithasol i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain ar adeg pan na all eu rhwydwaith cymorth arferol o deulu a ffrindiau eu cefnogi.



***Cryfhau ein dull o gyd-gynhyrchu yn effeithiol er mwyn sicrhau y gallwn weithio'n effeithiol gyda'n dinasyddion iau a'u cynnwys er mwyn diwallu eu hanghenion gofal a chymorth yn y ffordd orau.***

Mae erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi bod gan blant hawl i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnynt. Felly, mae sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â'u gofal a'u cymorth yn ganolog i gryfhau ein dull o gyd-gynhyrchu, egwyddor allweddol a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Yn ystod 2019/20, rydym wedi canolbwyntio ar gryfhau ein dull o gyd-gynhyrchu mewn tri maes allweddol: pobl sy'n gadael gofal, maethu ac asesu a chynllunio.

### Fforwm Pobl sy'n Gadael Gofal

Mae ein Fforwm Pobl sy'n Gadael Gofal yn darparu sianel lle gall pobl sy'n gadael gofal wella eu hiechyd a'u lles a manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae'r Fforwm hwn hefyd yn ffordd werthfawr y gallwn ymgysylltu â phobl sy'n gadael gofal i'n cefnogi i ail-lunio'r broses o gynllunio gwasanaethau.

### Fforwm Gofalwyr Maeth

Mae'r Fforwm hwn yn dod â gofalwyr o bob rhan o Fro Morgannwg ynghyd i gael cymorth i'w galluogi i gyflawni eu rolau ac mae hefyd yn fodd i ymgysylltu'n effeithiol â'n gofalwyr

maeth i'w cynnwys yn y ffordd rydym yn datblygu ac yn darparu cymorth a gwasanaethau gofal maeth yn well.

### Asesu a Chynllunio Gofal

Mae sicrhau bod gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd lais mewn prosesau asesu a chynllunio gofal yn rhan ganolog o'n gwaith. O ganlyniad, o gymryd y dull hwn, mae ein ffurflenni wedi'u datblygu fel bod llais a barn plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn gyson yn ein holl ddogfennau ac maent bellach yn rhan o fusnes craidd. Fel safon, mae plant a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys fel mater o drefn wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal a chymorth. Crëwyd Grŵp Ymgynghorol Datblygu Gwasanaethau o fewn ein gweithlu presennol er mwyn gwella ymhellach ein dull o ymdrin â phlant a'u teuluoedd sy'n seiliedig ar gryfderau drwy eu galluogi i gymryd rhan weithredol yn eu gwaith cynllunio gofal.

### Llwyddiannau allweddol:

#### Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- ✓ Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod ein gweithlu, ar y cyfan, yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phlant, pobl ifanc a theuluoedd ac mae wedi nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â gwaith partneriaeth a chyd-gynhyrchu gyda theuluoedd unigol. Nododd AGC fod y gweithlu'n 'adnabod eu plant yn dda'.
- ✓ Wedi llwyddo i ryddhau nifer o orchmynion gofal yn y Llys, lle mae plant wedi dychwelyd at rieni neu wedi byw gyda'u teulu ehangach yn dilyn cyfnod o dderbyn gofal. Er enghraifft, rhyddhawyd Gorchmynion Gofal ar gyfer 7 o blant a gafodd eu rhoi gyda rhieni yn erbyn bwriad blwyddyn lawn o 5, gyda 5 arall yn parhau i gael eu datblygu. Yn ogystal, rhyddhawyd Gorchmynion Gofal ar gyfer 5 o blant, a gafodd eu rhoi gyda pherthynas yn erbyn bwriad blwyddyn lawn o 6.
- ✓ Mae cyflawniadau'r bobl sy'n gadael gofal wedi cael eu cydnabod drwy Seremoni Wobrwyo.
- ✓ Mae'r Fforwm Gofalwyr yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sy'n gadael gofal, ac mae un person sydd wedi gadael gofal bellach wedi dod yn Aelod o'r Panel Rhianta Corfforaethol.
- ✓ Drwy ganolbwyntio ar gyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd, rydym wedi llwyddo i leihau'n sylweddol nifer y plant sy'n derbyn gofal, yn ystod 2019/20, o fewn ein poblogaeth gan 12. Ar ddiwedd Medi 2019, roedd Bro Morgannwg yn un o ddim ond saith Awdurdod Lleol a lwyddodd i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn llwyddiannus, a hwn oedd yr ail ostyngiad mwyaf yng Nghymru.
- ✓ Llwyddwyd i atal 36 o blant rhag dechrau derbyn gofal drwy ddarparu pecynnau cymorth amgen a gadawodd 10 plentyn ychwanegol y gweithrediadau cyn achos. Mae'r ddau wedi rhagori ar fwriadau blwyddyn gyfan ac wedi dangos sut mae cyd-gynhyrchu a defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau wedi bod yn effeithiol.
- ✓ Drwy weithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd rydym wedi gallu cyd-gynhyrchu siwrneiau gofal sydd wedi'u cynllunio'n glir i'w galluogi i gyflawni nodau eu cynllun gofal, mae hyn wedi helpu mewn rhai achosion i ailuno teuluoedd lle y bo'n bosibl a gallu gadael y system ofal yn gadarnhaol.

### Heriau allweddol:

#### Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:

- ✓ Creu digon o gapasiti o fewn y gweithlu i'n galluogi i ddatblygu a gwella cyd-gynhyrchu ymhellach fel bod hynny'n dod yn ffordd ystyrion o gyflawni'r canlyniadau fel y'u diffinnir gan unigolion.
- ✓ Datblygu gwaith partneriaeth cadarn gyda phlant a theuluoedd, fel y gallwn ddatblygu cynllun gofal a chymorth effeithiol wedi'i dargedu gyda chanlyniadau clir a mesuradwy.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Yn 2020/21, byddwn yn:

- Archwilio'r defnydd o atebion digidol a thechnoleg i fanteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd i gefnogi oedolion i gyflawni eu canlyniadau personol eu hunain.
- Gweithredu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau o gomisiynu gwasanaethau contractio ar draws ôl troed rhanbarthol a lleol.



## 5.2 SAFON LLES 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddwl pobl a'u lles emosiynol

Un maes datblygu allweddol yn ystod 2019/20 fu datblygu'r brand 'Materion Lles'. Mae'r rhaglen waith hon yn cael ei chynnal ar lefel leol a rhanbarthol ac wedi'i chefnogi gan y Gronfa Gofal Canolraddol.

### Trosolwg o'r Perfformiad

Mesurau Meintiol
Roedd cyfradd yr achosion oedi wrth drosglwyddo gofal yn 4.79 i bob 1,000 o'r boblogaeth.
<b>Cwblhaodd 17.51% o oedolion gyfnod adferol a chael pecyn gofal a chymorth llai ar ôl 6 mis.</b>
<b>Roedd 81.11% o oedolion a gwblhaodd gyfnod adferol wedi llwyddo i beidio â gorfod cael pecyn gofal a chymorth ar ôl 6 mis.</b>
<b>Roedd 97.03% o blant sy'n derbyn gofal wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu.</b>

### Beth roedden ni wedi bwriadu ei wneud y llynedd?

Ar gyfer 2019/20, nodwyd y flaenoriaeth ganlynol ar gyfer cyflawni:

- Caiff dinasyddion eu cyfeirio at y gwasanaethau lles mwyaf perthnasol a phriodol i sicrhau bod sgiliau ac apwyntiadau meddygon teulu yn cael eu defnyddio'n briodol.

### I ba raddau wnaethon ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethon ni?



## Caiff dinasyddion eu cyfeirio at y gwasanaethau lles mwyaf perthnasol a phriodol i sicrhau bod sgiliau ac apwyntiadau meddygon teulu yn cael eu defnyddio'n briodol.

Mae cyfeirio ein dinasyddion at y gwasanaethau lles mwyaf perthnasol a phriodol wedi bod yn ganolbwynt craidd i'n gwaith yn ystod 2019/20.

Ein prif ffocws fu datblygu a threialu model Brysbennu Meddygon Teulu a fydd yn ein galluogi i ddefnyddio ein hadnoddau a'r cymysgedd sgiliau o staff a meddygon teulu yn effeithiol, fel bod apwyntiadau'n cael eu defnyddio'n briodol.

Mae'r prosiect Peilot Brysbennu Meddygon Teulu a ariennir drwy arian Trawsnewid wedi ein galluogi i adeiladu ar ein swyddogaethau trin galwadau llwyddiannus yn ein canolfan alwadau gyfunol ar gyfer gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill y cyngor.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

- Gwneud cynnydd da o ran datblygu'r model hwn a fydd yn galluogi brysbennu effeithiol er mwyn hyrwyddo Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC).
- Lansiodd cam peilot y prosiect yn llwyddiannus yn ystod 2019/20, a welodd y model newydd yn cael ei dreialu gyda Phractis Meddygon Teulu lleol.
- Gan weithio ar y cyd â'n partneriaid lechyd, cynigiodd ein tîm prosiect gefnogaeth sylweddol i bractis mawr a oedd yn rhan o'r prosiect peilot cychwynnol.

### Llwyddiannau Allweddol:

#### Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

✓ Mae'r gwaith peilot wedi rhoi dealltwriaeth sylweddol i ni a'r practis meddygon teulu o ymddygiad cleifion ac mae'n rhoi cipolwg i ni ar sut rydym yn mynd ati i newid disgwyliadau cleifion.

✓ Cododd y Peilot broffil y gwasanaethau sydd ar gael i gleifion yn eu cymuned leol yn llwyddiannus.

✓ Dangosodd y Peilot fod cleifion wedi cael eu cyfeirio'n effeithiol a oedd yn ei dro yn lleihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu.

✓ Mae'r hyn a ddysgwyd o'r peilot hwn hefyd yn rhoi llwyfan i ni ddatblygu model mynediad i ysbytai 24/7 newydd.

### Heriau allweddol:

#### Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:

✓ Nid oedd modd ymestyn y prosiect peilot gymaint a fwriadwyd i ddechrau oherwydd anawsterau recriwtio ar gyfer Nyrsys Brysbennu.

✓ Y bwriad yw i Ganolfan Gyswllt y Cyngor gael ei defnyddio fel llwyfan technegol ar gyfer y Gwasanaeth Brysbennu Meddygon Teulu newydd. Roedd y peilot a oedd wedi'i leoli mewn practis meddygon teulu i ddechrau i fod i symud i'r Ganolfan Gyswllt er mwyn defnyddio technoleg ein Canolfan Gyswllt a phrofi'r model ymdrin â galwadau

ymhellach. Fodd bynnag, gohiriodd pandemig COVID-19 ein cynlluniau ar gyfer sefydlu presenoldeb y Ganolfan Alwadau. Effeithiodd hefyd ar ein gallu i gyflwyno'r model hwn ymhellach i bractisau meddygon teulu eraill. Mae tîm y prosiect yn gweithio ar gyflwyno'r peilot yn y dyfodol pan fydd gennym y cyflenwad staffio i wneud hynny, ar hyn o bryd mae'r rhai sy'n trin galwadau wedi cael eu hail-gyfeirio i gynorthwyo gyda phrosesau profi.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Yn 2020/21, byddwn yn:

- Datblygu 'Model Cynghrair' yn ardal y Fro a fydd yn ein galluogi i weithredu'n fwy effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol.
- Adolygu ein harferion gwaith i'n galluogi i weithredu'n fwy cynaliadwy.



### 5.3 SAFON LLES 3: Rhoi camau ar waith i amddiffyn a diogelu pobl rhag cam-driniaeth, esgeulustod a niwed.

Diogelu plant ac oedolion yw prif swyddogaeth adran Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdod lleol o hyd.

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn gyfrifol am oruchwylio dull corfforaethol y Cyngor o ddiogelu. Mae Polisi Diogelu Corfforaethol Bro Morgannwg yn nodi ein dyletswyddau a'r cymorth sydd ar gael i aelodau etholedig, cyflogeion, gwirfoddolwyr a/neu ddarparwyr gwasanaeth dan gontract pan fo ganddynt bryderon o ran mater diogelwch.

## Trosolwg o'r Perfformiad

### Mesurau Ansoddol

**Dyweddodd 94% o bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel.**

### Mesurau Meintiol

**Roedd 1.18% yn ailgofrestriadau plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant awdurdodau lleol.**

## Beth roedden ni wedi bwriadu ei wneud y llynedd?

O ran gweithredu i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag cam-drin, esgeulustod, neu niwed, gwnaethom nodi dwy flaenoriaeth:

- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n gysylltiedig ag arferion diogelu.
- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu gweithdrefnau Diogelu Cymru.

## I ba raddau wnaethon ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethon ni?



### *Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n gysylltiedig ag arferion diogelu.*

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

- Nodi'r polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol i gefnogi staff yn eu rolau;
- Rhannu dysgu o'r Adolygiad Amddiffyn Plant ac Amddiffyn Oedolion, gan gefnogi ymarferwyr i ddeall ac ymateb i'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau arferion diogelu cyson da.
- Cefnogi cydweithwyr ar draws yr Awdurdod Lleol i ymgorffori a deall eu cyfrifoldebau diogelu.

- Ymgysylltu â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i gefnogi cyfleoedd cyfranogi ar draws yr holl Fyrddau Diogelu Plant ac Oedolion ledled Cymru er mwyn datblygu cyfres gyson o weithdrefnau.

## Llwyddiannau Allweddol:

**Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:**

- ✓ Lefelau uchel o ymgysylltu a chynrychioli partneriaid allweddol ar draws holl ardaloedd Awdurdodau Lleol fel rhan o raglen waith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- ✓ Cyfrannu'n effeithiol at y Strategaeth a'r Cynllun Gwaith Camfanteisio Rhanbarthol.
- ✓ Blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni arferion Diogelu ar draws y gweithlu cyfan. O ganlyniad, yn ystod 2019/20 cwblhaodd 88% o staff e-fodiwl gorfodol ar ddiogelu. Mae datblygu matrices hyfforddiant wedi ein helpu i nodi a deall anghenion hyfforddi ein gweithlu i'n galluogi i deilwra rhaglen o hyfforddiant diogelu yn seiliedig ar angen.
- ✓ Gwnaed cynnydd cryf mewn perthynas â'n Polisi Recriwtio Diogelach. Mae cyfraddau cydymffurfio mewn perthynas â recriwtio diogelach yn uchel ar draws ein gwasanaethau cyngor ac mewn perthynas ag ysgolion.

## Heriau allweddol:

**Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:**

- ✓ Datblygu cydgyfrifoldeb cryf ar draws y cyngor o ran deall sut mae gweithdrefnau diogelu yn berthnasol i staff yn eu rolau o ddydd i ddydd.
- ✓ Gall sicrhau cynrychiolaeth gyson ar draws cyfarwyddiaethau wrth ddatblygu blaenoriaethau ac amcanion diogelu corfforaethol fod yn heriol yn enwedig pan fydd cydweithwyr yn ymgymryd â'r rôl hon yn ogystal â'u 'swyddi arferol'.



## Cwblhau'r gwaith o ddatblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Daeth yr angen i ddatblygu cyfres gadarn o weithdrefnau y gall ymarferwyr eu defnyddio ledled Cymru ar gyfer plant ac oedolion o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru a chyhoeddi'r canllaw '[Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl](#)' a'r Canllaw *Ymdrin ag Achosion Unigol*. Cafodd y gwaith o ddatblygu cyfres genedlaethol o weithdrefnau ei ddatblygu ar y cyd gan Fyrddau Diogelu Caerdydd a'r Fro, gyda Chyngor Bro Morgannwg yn cymryd y rôl gydlynw arweiniol yn y gwaith hwn.

Yn ystod 2019/20:

- Fe wnaeth cyfres o fyrddau prosiect gefnogi'r gwaith o gynhyrchu pob un o'r penodau sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau. Arweiniwyd y darn hwn o waith gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg.
- Cafodd drafft terfynol o'r [Gweithdrefnau diogelu](#) ei gytuno a'i lansio'n ffurfiol ym mis Tachwedd 2019 fel rhan o'r Wythnos Diogelu Genedlaethol.
- Mae app digidol wedi'i gwblhau ac hefyd wedi mynd yn fyw i'w ddefnyddio gan ymarferwyr. Mae'r app ar gael i'w lawrlwytho drwy Apple App Store a Google Play Store.

- Mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg wedi datblygu rhaglen weithredu. Er y disgwyliad i'r rhaglen hon gael ei gweithredu'n llawn erbyn mis Ebrill 2020 mae rhai elfennau o'r gwaith gweithredu wedi'u gohirio drwy weithgarwch yn cael ei ddargyfeirio i COVID-19.
- Dechreuodd hyfforddiant cychwynnol ar y gweithdrefnau ar gyfer staff mewn rolau allweddol ym mis Mawrth. Bydd Hyfforddiant Diogelu sy'n adlewyrchu'r gweithdrefnau newydd hyn ar gael yn eang o fis Mai.

## Llwyddiannau Allweddol:

### Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- ✓ Dyma'r tro cyntaf i gyfres gyson o weithdrefnau diogelu gael ei mabwysiadu i'w defnyddio ledled Cymru ar gyfer oedolion a phlant sy'n wynebu risg.
- ✓ Mabwysiadwyd dull amlasiantaethol cadarn o ddatblygu'r gweithdrefnau hyn a arweiniodd at fewnbwn a chynrychiolaeth gan sbectwm o sefydliadau gan gynnwys cymorth gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.
- ✓ Mae gweithdrefnau'n cynnig 'dull sut i fynd ati' ymarferol i gefnogi ymarferwyr yn eu rolau, ac mae hefyd yn adnodd arfer da gwerthfawr ar ffurf canllawiau a phwyntiau.
- ✓ Mae gweithdrefnau'n darparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer arferion diogelu, lle mae unrhyw ddinesydd a allai fod mewn perygl yn cael ei roi wrth wraidd yr holl drafodaethau, cynllunio a chyfrifoldeb fel eu bod yn cael eu cynnwys a'u hysbysu drwy gydol y broses gyfan. Cynigir cymorth eiriolaeth i bawb sy'n cymryd rhan yn y prosesau diogelu.

## Heriau allweddol:

### Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:

- ✓ Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â'r holl randdeiliaid rheng flaen i gael eu mewnbwn i lunio'r gweithdrefnau newydd i gefnogi'r broses o drosglwyddo i'r ffyrdd newydd o weithio sy'n symlach ac yn gyson â gofynion Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r Canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl ac Ymdrin ag Achosion Unigol.
- ✓ Rheoli disgwyliadau a chael consensws ar draws y rhanbarthau gan grŵp rhanddeiliaid eang (ymarferwyr).
- ✓ Roedd gallu'r gweithlu i arwain ar gydlynu a datblygu'r prosiect hwn ledled y wlad yn dipyn o her wrth geisio rheoli a blaenoriaethu cyfrifoldebau eu rolau eraill o ddydd i ddydd.
- ✓ Roedd cynllunio a datblygu strategaeth a sianelau cyfathrebu priodol sy'n targedu pob grŵp rhanddeiliaid yn effeithiol yn heriol. Roedd angen i'r strategaeth ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gyfeirio cyfathrebu i'r grwpiau hyn mewn ffordd addysgiadol a chysylltiedig.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Yn 2020/21, byddwn yn:

- Gwella a chryfhau ein dull rhanbarthol o recriwtio a chadw gofalfwyr maeth.
- Cwmpasu a gweithredu model sy'n seiliedig ar gryfderau ar gyfer gweithio'n gydgynhyrchiol gyda phlant a'u teuluoedd.



## 5.4 SAFON LLES 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas



Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi sail gyfreithiol i'n hymrwymiad i gefnogi pobl i 'gyrraedd eu llawn botensial' ac i gyfranogi'n effeithiol mewn cymdeithas. Mae hefyd yn ymwneud â galluogi ein defnyddwyr gwasanaeth i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

### Trosolwg o'r Perfformiad

#### Mesurau Ansoddol

**Dywedodd 99% o bobl eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.**

**Dywedodd 98% o bobl eu bod yn fodlon â'u rhwydweithiau cymdeithasol.**

#### Mesurau Meintiol

Cyflawnodd 75% (18) o garfan o 22 o ddysgwyr L4+ yng Nghyfnod Allweddol 2

### Beth roedden ni wedi bwriadu ei wneud y llynedd?

- Darparu strategaeth gyson mewn perthynas â gofalwyr o ran polisiau ac arferion i'w dilyn gan weithwyr proffesiynol.

### I ba raddau wnaethon ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethon ni?



**Darparu strategaeth gyson mewn perthynas â gofalwyr o ran polisiau ac arferion i'w dilyn gan weithwyr proffesiynol.**

Yn ystod 2019/20 fe wnaethon ni:

- Adnewyddu aelodaeth ffrwd waith y Gofalwyr Rhanbarthol i sefydlu rhwydweithiau/perthnasau newydd i sicrhau y gellir datblygu'r gwaith yn effeithiol ar draws y rhanbarth sy'n canolbwyntio ar wella a datblygu gwasanaethau'n barhaus.
- Datblygwyd strategaeth ddrafft drwy'r ffrwd waith ac ymgynghorwyd arni drwy gyfres o weithdai. Cynhaliwyd cyfanswm o chwe gweithdy ledled Caerdydd a'r Fro ar gyfer gofalwyr a'r gweithlu ehangach a chynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgysylltu ar gyfer gofalwyr ifanc yn ystod Gwanwyn/Haf 2019. Yn ogystal â hyn, roedd arolygon ar-lein ar gael i'r holl staff a gofalwyr gydag allgymorth yn cael ei gynnal drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r Trydydd Sector.
- Daeth y cyfnod ymgynghori helaeth i ben gyda digwyddiad dathlu ym mis Hydref ar gyfer yr holl ofalwyr a gymerodd ran mewn gweithdai yn ogystal ag amryw ddigwyddiadau ymgynghori eraill.
- Datblygwyd Porth Gofalwyr Rhanbarthol, mewn ymateb i'r hyn a ddywedodd gofalwyr wrthym yn yr Aseiad Anghenion y Boblogaeth a'r broses ymgynghori. Y Porth fydd y pwynt cyswllt cyntaf i ofalwyr sy'n cynnig gwasanaeth cyfeirio ac atgyfeirio i wasanaethau sy'n bodoli eisoes.

- Parhau i ddatblygu ein gwaith tuag at Achrediad sy'n Ystyriol o Ofalwyr ar gyfer sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a'r Trydydd Sector ar draws y rhanbarth. Nod yr achrediad hwn yw cydnabod, gwella a chynyddu mynediad at wybodaeth a chymorth i ofalwyr di-dâl.
- Parhau i gefnogi'r Panel Arbenigwyr Gofalwyr, sy'n helpu i lunio a llywio ein gwasanaethau a ddefnyddir hefyd i gyfeirio gwasanaethau a chynlluniau eraill sy'n gysylltiedig â gofalwyr yn y rhanbarth.

Mae cynnwys gofalwyr yn y gweithdai ymgynghori wedi cael effaith sylweddol ar lunio'r Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol a datblygu Porth i Ofalwyr. Roedd nifer o ofalwyr a fynychodd y gweithdai yn teimlo bod y profiad yn fuddiol ac yn eu galluogi i rannu eu straeon a'u profiad gan eu galluogi i gael llais ar y cyd wrth lunio gwasanaethau yn y dyfodol. Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i roi adborth ar eu profiadau ac i fod yn rhan o'r prosesau datblygu a chynllunio sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gofalwyr.

Roedd ciplun o'r sylwadau a gafwyd gan ofalwyr yn ystod y broses ymgynghori mewn perthynas â datblygu'r Porth fel a ganlyn:

Mae Siop Un Stop yn swnio'n wych! Gall ceisio delio â Gweithwyr Cymdeithasol a chydlynu cyfarfod fod yn anodd.

Byddai cael Siop Un Stop yn dda i gyfeirio at elusennau mwy perthnasol am gyflwr penodol. Byddai hefyd yn dda cynnal boreau coffi i ofalwyr gwrdd â'i gilydd a gwneud ffrindiau a chael cefnogaeth ychwanegol.

Mae Siop Un Stop yn syniad gwych! Mae Canolfannau Gofalwyr a Mannau Cymunedol hefyd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cymorth a chynghor gan gymheiriad neu rywle lle gallwn fynd i liniaru straen unigedd ac unigrwydd.

## Llwyddiannau Allweddol:

**Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:**

- ✓ Cafodd saith blaenoriaeth strategol y strategaeth eu cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'u cymeradwyo ym mis Chwefror 2020.
- ✓ Cefnogaeth unfrydol gan ofalwyr sy'n oedolion, gofalwyr ifanc, rhiant-ofalwyr a'n gweithlu ar gyfer y blaenoriaethau a amlinellir yn y strategaeth. Ar y cyfan roedd yr holl adborth a gawsom mewn perthynas â'n gweledigaeth ar gyfer gofalwyr yn gadarnhaol iawn gan gyfranogwyr a fynychodd y digwyddiadau ymgynghori amrywiol.
- ✓ Defnyddiwyd adborth gan ofalwyr i lunio'r gwaith o ddatblygu camau gweithredu allweddol sy'n cyd-fynd â phob un o'r saith blaenoriaeth strategol a fydd yn ffocws allweddol ar draws y rhanbarth.
- ✓ Comisiynu a datblygu'r Porth Gofalwyr Rhanbarthol a lansiwyd ym mis Mawrth 2020. Bydd y Porth hwn yn darparu gwybodaeth, cynghor a chymorth cyson i ofalwyr ac yn darparu mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth o ran cael gafael ar wasanaethau.

- ✓ Mae'r strategaeth ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau a'i lansio yn ystod gaeaf 2020.

## Heriau allweddol:

### Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:

- ✓ Mae comisiynu Porth i'w ddefnyddio fel adnodd allweddol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth gan ofalwyr ar draws y rhanbarth wedi bod yn broses sy'n cymryd llawer o amser.
- ✓ Heriau sy'n gysylltiedig â ffurfio perthnasau newydd fel rhan o'r adolygiad sylweddol o gynrychiolaeth ranbarthol ac aelodaeth y Ffrwd Waith Gofalwyr Rhanbarthol.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Yn 2020/21, byddwn yn:

- Darparu strategaeth gyson a chydlynol ar gyfer gofalwyr sy'n cydnabod y cyfraniad hanfodol a wnânt yn eu cymunedau a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.



## 5.5 SAFON LLES 5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel

Mae datblygu perthnasau cryf ac iach yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi lles corfforol a meddyliol pobl.

## Trosolwg o'r Perfformiad

### Mesurau Ansoddol

Dywedodd 84% o bobl eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned.

Dywedodd 100% o rieni eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am ofal a chymorth eu plentyn

Dywedodd 90% o ofalwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau â'u rôl gofalu.

Dywedodd 95% o ofalwyr eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r cynllun gofalu a chymorth ar gyfer y person y maent yn gofalu amdano.

### Mesurau Meintiol

Cafodd 74.73% o'r plant eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu yn ystod y flwyddyn.

Cafodd 5.96% o'r plant sy'n derbyn gofalu ddychwelyd adref o ofal yn ystod y flwyddyn.

Roedd 6.36% o'r plant sy'n derbyn gofalu ar 31 Mawrth wedi bod mewn o leiaf dri lleoliad yn ystod y flwyddyn.

## Beth rodden ni wedi bwriadu ei wneud y llynedd?

Ein blaenoriaethau ar gyfer cyflawni yn ystod 2019/20 oedd:

- Datblygu gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau yn cynnwys ysgolion a lleoliadau gofalu.



## I ba raddau wnaethon ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethon ni?



### *Datblygu gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau yn cynnwys ysgolion a lleoliadau gofal.*

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cynnydd mawr wedi'i wneud o ran datblygu'r gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau a wnawn ar draws ein cartrefi gofal preswyl sy'n cael eu rhedeg gan y Fro. Rydym wedi sefydlu trefniant cydweithredol parhaus rhwng ein Cartrefi Gofal Preswyl ac ysgolion a grwpiau chwarae lleol.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

- Cydlynu ymweliadau bob pythefnos gan ddisgybl Blwyddyn 6 o Ysgol Gynradd Romilly at breswylwyr cartrefi gofal yn Cartref Porthcerri (yn ystod y tymor).
- Sefydlu menter Pen Pal rhwng preswylwyr Cartref a disgyblion Ysgol Gynradd Romilly.
- Mae cylch chwarae lleol, Moo Music, yn mynychu cartref gofal preswyl Southway yn fisol i redeg grŵp cerddoriaeth gyda babanod a phlant bach a phreswylwyr Southway.
- Roedd 8 wythnos o sesiynau celf a chreffft yn cael eu cynnal gyda phlant o Ysgol Gynradd Y Bont Faen a phreswylwyr cartref gofal Southway.
- Cyflwynwyd sesiynau hyrwyddwyr digidol gan ddisgyblion ysgol Stanwell gyda phreswylwyr Tŷ Dewi Sant fel rhan o'u Bagloriaeth Cymru.
- Defnyddiwyd offer tovertafel (taflunydd gyda synwryddion is-goch a seinyddion) yn Nhŷ Dyfan a Southway i gynnal cyfres o gemau i wella ac ysgogi gweithgareddau corfforol a gwybyddol preswylwyr â Dementia. Er enghraifft, gwahoddwyd disgyblion 6ed dosbarth o Ysgol Gyfun y Bont-faen i Southway i gymryd rhan mewn cyfres o gemau/gweithgareddau gan ddefnyddio Tover Tafel. Rydym wedi bod mewn cysylltiad ag ysgol uwchradd yn y Barri i ystyried y posibilrwydd o weithredu prosiect tebyg yn Nhŷ Dyfan, nawr bod y bwrdd wedi'i osod a phan fydd y pandemig yn caniatáu hynny.
- Parhau i gael cyfarfodydd gydag amrywiaeth o gartrefi gofal ac ysgolion yn y sector preifat i rannu syniadau, llwyddiannau a'u hysbrydoli i gymryd rhan. Gobeithir drwy'r sgyrsiau hyn, y gallwn annog lleoliadau eraill i gymryd rhan yn y gwaith hwn sy'n pontio'r cenedlaethau fel y gellir profi a chyflwyno manteision yn ehangach. Drwy'r cyfarfodydd hyn rydym wedi gallu dod o hyd i gartrefi gofal ac ysgolion lleol sydd wedi dangos diddordeb mewn datblygu'r syniadau hyn, a'u paru.

### Llwyddiannau Allweddol:

**Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:**

✓ Mae gwaith rhwng cenedlaethau a ddechreuodd fel gweithgaredd ar lawr gwlad mewn un cartref gofal (Cartref Porthcerri) wedi ysbrydoli llawer o gartrefi gofal preswyl ac ysgolion eraill yn yr ardal i gymryd rhan ac ailadrodd y model hynod llwyddiannus a buddiol hwn. Mae llwyddiant y prosiect hwn yn amlwg trwy'r **fideo** hwn

✓ Mae'r project yn dod â phobl ifanc a phobl hŷn at ei gilydd, gan eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol. Mae hyn yn ei dro yn helpu i chwalu'r ystrydebau niweidiol ac yn hybu ymdeimlad gwell o hunan-werth, dealltwriaeth a pharch rhwng cenedlaethau.

✓ Mae ein Hyrwyddwr Dementia (Jackie Moon) sy'n Gynorthwy-ydd Domestig yn Cartref Porthcerri ac a oedd yn rhan o'r sbardun cychwynnol y tu ôl i'r gwaith hwn wedi'i enwebu fel un sydd wedi cyrraedd rownd derfynol gwobr 'Gofalwn' Gofal Cymdeithasol Cymru.

✓ Mae'r fenter hon nid yn unig wedi dod â llawenydd mawr i'n preswylwyr gofal ond mae hefyd wedi darparu profiadau dysgu gwerthfawr i'n plant a'n pobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect. e.e. Cefnogi Disgyblion Stanwell sy'n gweithio tuag at eu cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac mae wedi cefnogi llythrennedd drwy sefydlu trefniant Pen Pal rhwng disgyblion Ysgol Gynradd Romilly a phreswylwyr Cartref.

✓ Rydym wedi gweld bod ein preswylwyr yn edrych ymlaen at ymweliadau gan bobl ifanc â chyffro mawr ac yn aml yn gwneud sylwadau am deimlo'n well. Mae ein preswylwyr yn teimlo'n fwy ymgysylltiol ac mae wedi helpu i gynyddu eu hymdeimlad o werth, hunan-barch a hyder.

Mae preswylwyr yn aml yn mynegi eu bod yn teimlo cyfrifoldeb i'r bobl ifanc sy'n ymweld, ac yn yr un ffordd mae'r gwaith hwn hefyd wedi helpu pobl ifanc i gydnabod eiddilwch a gwendidau pobl hŷn wrth heneiddio. O ganlyniad i'r cyd-barch a'r ddealltwriaeth hon, mae wedi cymell pobl ifanc i ddod yn 'Gyfeillion Dementia' gan ein galluogi i symud tuag at fod yn gymuned 'Sy'n Deall Dementia'.

## Heriau allweddol:

### Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:

✓ Mae risgiau'n gysylltiedig â rheoli ymddygiad rhai preswylwyr, ond mae'r cartrefi gofal wedi bod yn ofalus i asesu'r risgiau a rhoi mesurau priodol ar waith.

✓ Mae prinder staff, swyddi gwag a chapasiti wedi atal staff eraill rhag cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau ar adegau.

## Cartref Gofal Southway - Y Bont-faen



Disgyblion Ysgol Gynradd y Bont-faen - sesiynau celf a chrefft



Disgyblion Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cymryd rhan mewn gweithgaredd Tovertafel gyda phreswylwyr

## Cartref Gofal Cartref Porthcerri - Y Barri



Disgyblion Ysgol Romilly – sesiynau celf a chreffft.



Mynychodd preswylwyr Cartref Panto Ysgol Gynradd Romilly - Aladdin.

Enghraifft o lythyr a anfonwyd at breswilydd Cartref gan ddisgybl Ysgol Gynradd Romilly fel rhan o'r fenter Pen Pal.



## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Yn 2020/21, byddwn yn:

1. Archwilio cyfleoedd i wneud y defnydd gorau posibl o lwyfannau digidol i wella ein cyrhaeddiad a'n hymgysylltiad gyda ac ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.



### 5.6 SAFON LLES 6: Gweithio gyda phobl, a'u cefnogi i wella eu lles economaidd, i gymdeithasu'n rheolaidd a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion.

Mae cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd yn hanfodol i wella ymdeimlad rhywun o les. Os oes gan unigolyn ddigon o arian i fyw arno, fod ganddo rwydweithiau cymdeithasol ac y gall fwynhau byw mewn llety fforddiadwy o safon sy'n bodloni ei anghenion, mae'n fwy tebygol o gael ansawdd bywyd da.



I gefnogi ein dinasyddion yn well i wella eu lles economaidd a chymdeithasol ein rôl ni yw gweithio'n effeithiol gyda'n rhanddeiliaid allweddol i gydlynu'n well ac atgyfeirio preswylwyr at wasanaethau a fydd yn rhoi sefydlogrwydd economaidd gwell iddynt, cysylltedd yn eu cymunedau a mynediad i dai o safon uchel.

## Trosolwg o'r Perfformiad<sup>4</sup>

Mesurau Ansoddol
Dywedodd 99% o oedolion eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw.
Dywedodd 100% o blant a phobl ifanc eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw.
Dywedodd 99% o bobl eu bod wedi derbyn gofal a chymorth trwy'r iaith o'u dewis

Mesurau Meintiol
Roedd 45.45% o bobl sydd wedi gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.
Roedd 52.17% o bobl sydd wedi gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal.

## Beth roedden ni wedi bwriadu ei wneud y llynedd?

Gwnaethom nodi dwy flaenoriaeth i'w cyflawni yn ystod 2019/20:

1. Gweithio gyda'r gwasanaeth tai i weithredu ein dull Llety gyda Gofal i gefnogi a gwella byw'n annibynnol.
2. Gwerthuso ac adolygu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi oedolion i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

## I ba raddau wnaethon ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethon ni?



### Gweithio gyda'r gwasanaeth tai i weithredu ein dull Llety gyda Gofal i gefnogi a gwella byw'n annibynnol.

Cydnabyddir ansawdd, addasrwydd, gallu i addasu a fforddiadwyedd tai i bobl hŷn fel ffactor allweddol sy'n galluogi unigolion i barhau i fyw'n annibynnol gyhyd â phosibl. Felly, mae datblygu llety priodol gydag atebion gofal i alluogi pobl hŷn i fyw'n fwy annibynnol wedi bod yn flaenoriaeth a nodwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

<sup>4</sup> Nid oedd data ar gael ar gyfer 'Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n hapus gyda phwy maen nhw'n byw'. Ategwyd hyn gan ddata ar 'Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n dweud eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw'. Yn ogystal, nid oedd unrhyw ddata ar gael ar 'Canran yr oedolion a ddewisodd fyw mewn cartref gofal preswyl'. Mae data sy'n ymwneud â chanran yr oedolion ifanc a ddywedodd eu bod wedi derbyn cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolion wedi'i eithrio rhag cael ei gyhoeddi gan fod swm y data a gafwyd yn rhy isel i ddarparu dadansoddiad cymesur a gallai beri'r risg o ddatgelu gwybodaeth adnabyddadwy.

- Defnyddio Cyllid Gofal Integredig i gwblhau astudiaeth ddichonoldeb/hyfywedd ar Bentref Penarth a fydd yn cynnwys cynllun gofal ychwanegol a fydd, yn ôl y bwriad, yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â thai, gofal cymdeithasol ac iechyd;
- Mae gwaith wedi'i wneud ar ddatblygu prosiect gwerth £3.5 miliwn yn Brecon Court yn y Barri i adeiladu 15 uned tai cyngor ar gyfer pobl hŷn. Mae'r datblygiad yn rhan o ddatblygiad tai cyngor llawer ehangach a fydd yn dod yn safle sy'n pontio'r cenedlaethau. Bydd y datblygiad 'gofal barod' hwn o dai cymdeithasol yn gweld rhai o'r eiddo'n cael eu datblygu fel y gall unigolion ddefnyddio technoleg prif ffrwd cynorthwyol i fyw'n fwy annibynnol drwy ganolbwyntio ar gefnogi'r rhai ag anghenion cymedrol i lefel isel. Disgwylir i'r datblygiad gael ei gwblhau yn ystod haf 2020. Bydd y cynllun yn bodloni'r Gofynion Ansawdd Datblygu a'r Safon Cartrefi Gydol Oes fel y gallwn ddiogelu at y dyfodol i ddiwallu anghenion newidiol pobl hŷn wrth iddynt heneiddio.
- Comisiynwyd gwasanaeth Siop Un Stop i roi cyngor a chymorth yng nghanol y Barri, a agorodd ar 1 Ebrill 2020. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor a chymorth ariannol i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau a fyddai fel arall yn cael eu hallgáu'n ddigidol.

## Llwyddiannau Allweddol:

**Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:**

- ✓ Derbyniodd 558 o bobl hŷn gymorth yn gysylltiedig â thai a ariannwyd gan Cymorth Tai i'w cynorthwyo i barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Mynychodd 69 o'r unigolion hyn wasanaeth galw heibio i bobl hŷn yn Golau Caredig, Cynllun Gofal Ychwanegol yn y Barri.
- ✓ Cafodd 40 o bobl hŷn gymorth i adael yr ysbyty drwy'r Tîm Atebion Rhyddhau yn ystod naw mis cyntaf 2019/20.
- ✓ Arbedwyd 191 o ddiwrnodau gwely drwy ymyriadau Atebion Rhyddhau yn ystod naw mis cyntaf 2019/20, gan arwain at arbed £51,570 i'r gwasanaeth lechyd.
- ✓ Darparwyd cymorth ariannol i 527 o ddefnyddwyr ychwanegol gwasanaeth Larwm Cymunedol a Theleofal y Fro i ariannu costau monitro eu larymau argyfwng drwy'r Grant Cymorth Tai.
- ✓ Cafodd 202 o bobl hŷn eu hail-gartrefu drwy'r cynllun Home4U i lety mwy priodol a oedd yn ateb eu hanghenion.

## Heriau allweddol:

**Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:**

- ✓ Cafwyd oedi cychwynnol wrth ddatblygu'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Pentref Penarth oherwydd oedi cyn cadarnhau'r cyllid.
- ✓ Diffyg telerau ac amodau rhwng partneriaid sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r astudiaeth ddichonoldeb yn effeithio ar ei chynnydd.
- ✓ Cafwyd oedi oherwydd tywydd gwael o ran cwblhau'r llety newydd ar gyfer pobl hŷn yn y Barri, ond mae'r prosiect yn ôl ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn haf 2020.



## Gwerthuso ac adolygu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi oedolion i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae technoleg gynorthwyol yn chwarae rhan hanfodol o ran galluogi oedolion i fyw'n fwy annibynnol gartref cyhyd ag y bo modd.

Ein prif ffocws fu ehangu'r opsiynau technoleg gynorthwyol sydd ar gael i'n dinasyddion.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

- Gweithio o fewn y Gwasanaeth Teleofal i ymestyn yr opsiynau y gall pobl eu dewis i'w cefnogi orau a chadw eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain.
- Datblygu cynlluniau i ddatblygu cynllun yn Castle Avenue, Penarth i ddarparu lle pontio sy'n cyflwyno pobl i'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol. Y gobaith yw y bydd y prosiect Gofal Integredig a ariennir hwn yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
- Er mwyn cefnogi cleientiaid agored i niwed yn ystod pandemig COVID-19, gwnaethom gynnig gosodiadau am ddim ar gyfer ein Gwasanaethau Teleofal a drefnwyd gan ein Tîm Teleofal

## Llwyddiannau Allweddol:

**Mae'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon fel a ganlyn:**

- ✓ Mae ymestyn yr opsiynau technoleg gynorthwyol yn ystod pandemig COVID-19 wedi bod o gymorth i'n defnyddwyr gwasanaeth i roi sicrwydd a chefnogaeth ychwanegol i'r rheiny sydd wedi'u hynysu oddi wrth ffrindiau a theulu.
- ✓ Yn ystod 2019/20, cofrestrodd 400 o gleientiaid i'n Gwasanaethau Teleofal ac yn ystod y pandemig ychwanegwyd 57 o gleientiaid newydd ychwanegol.
- ✓ Mae ein prosiect pontio yn Castle Avenue wedi bod yn ffordd effeithiol i'n cleientiaid ddysgu sut i ddefnyddio'r dechnoleg gynorthwyol ar gyfer eu hanghenion, cyn symud i leoliad/cartref parhaol, lle mae technoleg gynorthwyol yn darparu annibyniaeth a diogelwch ychwanegol iddyn nhw.

## Heriau allweddol:

**Yr heriau allweddol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon fu:**

- ✓ Cafodd ein cynnydd gyda gwaith prosiect technoleg gynorthwyol ei lesteirio gan bandemig COVID-19. Mae oedi o ran cynnydd oherwydd yr angen i ailflaenoriaethu ein gwasanaethau ac ail-leoli ein hadnoddau a'u hailgyfeirio i'r rheng flaen.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Yn 2020/21, byddwn yn:

- Datblygu ein defnydd o dechnoleg i wneud y gorau o'r ffordd rydym yn cyfrannu at wella'r broses o gynllunio a chydlynu gwasanaethau gofal cymdeithasol i'n dinasyddion.

## 6. Sut y Gwnawn yr Hyn a Wnawn



### 6.1 Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Rydym wedi datblygu prosesau cynllunio'r gweithlu a chynnwys staff sefydledig i sicrhau ein bod yn parhau i gynnal gweithlu medrus a gwydn iawn sy'n ymatebol i'r amgylchedd deddfwriaethol newidiol yr ydym yn gweithio ynddo.

O fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol rydym yn parhau i gefnogi a hyrwyddo amrywiaeth o fentrau gweithlu corfforaethol sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo ymgysylltu, cynnwys, datblygu a chydabod ein gweithlu ymroddedig. Rydym yn parhau i gydnabod a gwobrwyo ein staff, drwy gefnogi'r cynllun 'Mynd y Filtir Ychwanegol' sy'n rhoi'r cyfle i staff ar draws y Cyngor enwebu eu cydweithwyr i gydnabod gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'r swydd. Yna cyhoeddir yr erthyglau hyn ar ein mewnwyd fewnol a thrwy gylchlythyrau i ddathlu cyflawniad ac ymroddiad ein staff.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

- Gwella ein dull o ran creu cynlluniau dilyniant drwy gefnogi cynnydd unigolion o rolau anghymwys i rai cymwys a datblygu ymarferwyr i swyddi rheoli.
- Parhau i fuddsoddi mewn ymgyrchoedd recriwtio pwrpasol i ddenu Gweithwyr Cymdeithasol a Rheolwyr Gweithwyr Cymdeithasol i'n swyddi sy'n hanfodol i fusnesau sydd, yn draddodiadol, yn anodd recriwtio iddynt.
- Darparu rhaglen o hyfforddiant gloywi i staff ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) yn barhaus.
- Adolygu'r adran Rheoli Adnoddau a Diogelu, er mwyn meithrin gwydnwch ymhellach yn y strwythur diogelu. Rydym wedi gwneud hyn drwy recriwtio Rheolwr Tîm Diogelu yn llwyddiannus a llenwi'r holl swyddi Swyddogion Adolygu Annibynnol. Dechreuodd y penodiadau hyn ar ddechrau 2020.
- Adolygu'r broses o gyflogi Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy i wella recriwtio a chadw'r swyddi hyn ac maent wedi rhoi cyflog newydd ar waith.
- Gwella capasiti o fewn timau drwy edrych ar ffyrdd amgen o ddefnyddio a dosbarthu ein gweithlu. Er enghraifft, yn y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc rydym wedi sicrhau mwy o gapasiti drwy ychwanegu mwy o adnoddau (staff) ar y rheng flaen ar ffurf y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chynghori.

Wrth gynnal a gwella ein gwasanaethau, bydd ein camau blaenoriaeth yr ydym yn bwriadu eu cymryd yn ystod 2020/21 yn canolbwyntio ar:

- Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Ymgysylltu ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygu dull wedi'i dargedu o recriwtio swyddi arbenigol ac allweddol a chadw staff yn effeithiol yn y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc er mwyn cynyddu gwydnwch gwasanaethau.
- Datblygu Disgrifiad Swydd a Manyleb Person generig ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol y Gwasanaethau i Oedolion sy'n cynnwys gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy.



## 6.2 Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae'r Gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei monitro'n ofalus gydol y flwyddyn. I sicrhau bod monitro effeithiol ar waith mae Bwrdd Rhaglen Cyllideb yn bodoli i roi trosolwg lefel uchel o'r gyllideb a chymryd camau gweithredu lle bo angen ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Mae gwaith y Bwrdd yn cynnwys diweddariadau rheolaidd o gynnydd yn erbyn targedau arbedion yn ogystal â dealltwriaeth o'r pwysau cynyddol sy'n wynebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyngor yn gyffredinol. Yn ogystal â hyn, ystyrir cynlluniau arbedion unigol a phwysau cost gan Gabinet y Cyngor ar adegau priodol gydol y flwyddyn.

Mae Bro Morgannwg yn parhau i elwa o gyllid grant i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein gwaith rhanbarthol drwy ffrydiau ariannu fel y Gronfa Gofal Integredig. Mae tystiolaeth dda hyd yn oed yng nghyd-destun twf sylweddol o ran galw a chymhlethdod angen, ein bod yn rheoli'r cyllidebau yn effeithiol. Mae'r twf hwn yn ymddangos ar draws y sector ond yn fwyaf amlwg gyda phobl hŷn yn gofyn am ofal cartref a phlant sydd angen lleoliad.

Y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn oedd £66.825m. Ar ôl trosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn, roedd alldro ffafriol cyffredinol o £12k ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.

I ddechrau roedd amrywiant anffafriol o £613k mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, a oedd yn ymwneud yn bennaf â phwysau cost yn gysylltiedig â'r gyllideb Lleoliadau Allanol lle mae costau lleoli yn uwch i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth sylweddol a'r costau sy'n gysylltiedig ag achosion llys cymhleth y mae angen cwnsler arnynt. Gwrthbwysswyd hyn yn erbyn amrywiant ffafriol o £306k o gyllid grant ychwanegol a dderbyniwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan Cefnogi Pobl a CGI. O ganlyniad, roedd yr alldro cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yn amrywiant anffafriol o £307k.

Roedd gan y Gwasanaethau i Oedolion ar ddiwedd y flwyddyn amrywiant ffafriol yn gyffredinol gydag alldro o £205k. I ddechrau, roedd amrywiant anffafriol yn ystod y flwyddyn o £920k, a oedd yn ymwneud yn bennaf (£880k) â pheccynnau gofal cymunedol. Gwrthbwysswyd hyn gan amrywiant ffafriol yn ystod y flwyddyn o £1.995m, a oedd yn ymwneud yn bennaf â staffio, cyllid grant ac asedau. Mae'r amrywiant ffafriol hwn wedi caniatáu neilltuo £870k yng nghronfa Newidiadau Deddfwriaethol y Gwasanaethau

Cymdeithasol a gwnaed trosglwyddiad o £45k i'r gronfa Teleofal i neilltuo cyllid ar gyfer offer newydd a chostau staffio ychwanegol yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan yr Is-adran Rheoli Adnoddau a Diogelu amrywiant ffafriol o £7k. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn parhau i gael ei hailgodi ar y Gwasanaethau i Blant ac Oedolion. Roedd amrywiant anffafriol o £226k, a oedd yn ymwneud ag ail-godi tâl mewnol is ar y Gwasanaethau i Blant ac Oedolion, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r costau sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn technoleg newydd i alluogi gweithio symudol. Mae'r amrywiant anffafriol hwn wedi'i gydbwysu yn erbyn amrywiadau ffafriol sy'n dod i gyfanswm o £233k mewn perthynas â swyddi staff gwag, cyflenwadau a gwasanaethau, cyllid grant ychwanegol a chynnydd mewn cleientiaid sy'n hunan-ariannu mewn dau gartref gofal preswyl.

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y Gwasanaeth Troseddau leuenctid amrywiant ffafriol o £107k yn ymwneud â swyddi staff gwag.



Rydym wedi parhau i gefnogi Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor yn llwyddiannus ac mae'r Bwrdd Rhaglen Cyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol cysylltiedig wedi cyflawni rhaglen o arbedion sylweddol dros nifer o flynyddoedd. Nid oedd eleni'n eithriad ac yn ystod 2019/20 cyflawnwyd dros £500k o arbedion.

### **6.3 Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd**

Rydym yn dal i ystyried a hyrwyddo cyfleoedd i gydweithio'n lleol ac yn rhanbarthol er mwyn cyflawni gwasanaethau gwell i gwsmeriaid a chyflawni arbedion. Er gwaetha'r pwysau penodol sy'n gysylltiedig â'r pwysau cyllidebol sydd eisoes yn bodoli a'r galw cynyddol am ein gwasanaethau gwnaethom barhau i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn drwy weithredu i ail-lunio ac integreiddio ein gwasanaethau.



#### ***Ein Harweinyddiaeth a'n Llywodraethu***

Mae ein blaenoriaethau fel Cyfarwyddiaeth nid yn unig yn cael eu cyfeirio gan ein hangen i gyflawni ein swyddogaethau statudol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond hefyd gan yr angen i sicrhau ein bod yn edrych yn gyson ar ffyrdd y gallwn symleiddio a gwella'r gwasanaethau i'n dinasyddion yn well.

Mae Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi newid y ffordd yr ydym yn gweld, cynllunio a darparu ein gwasanaethau fel bod mwy o ffocws ar wella lles ein dinasyddion. O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r pwyslais ar sut rydym yn dangos drwy ein gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r Nodau Lles Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf hon. Ond mae'r ffocws wedi symud oddi wrth 'unigolion cymwys' i ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu 'harwain gan ddinasyddion' sy'n grymuso unigolion i ddiffinio a chyflawni eu nodau lles eu hunain.

Bob blwyddyn rydym yn nodi camau i'w cymryd a fydd yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol er mwyn nodi ffyrdd y gallwn wella gwelliant parhaus ymhellach ar draws ein gwasanaethau. Rydym yn gwneud hyn yn bennaf drwy ein Cynlluniau Gwasanaeth. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol mae tri Cynllun Gwasanaeth sy'n adlewyrchu is-adrannau'r Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc a Rheoli Adnoddau a Diogelu. Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth yn amlinellu'r canlyniadau a'r amcanion lles yr ydym yn cyfrannu atynt ac yn darparu mecanwaith cynllunio ar gyfer adolygu, asesu a gosod yn flynyddol ein blaenoriaethau/gweithgareddau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Y gwerthusiad hwn o'n gweithgareddau gwasanaeth sydd hefyd yn helpu i lywio'r broses o bennu blaenoriaethau'r Adroddiad Blynyddol hwn yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ein blaenoriaethau yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cynllun Corfforaethol, yn realistig o fewn ein dulliau cyllidebol ac yn ein galluogi i gydymffurfio â'n gofynion deddfwriaethol a'n swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol statudol.

Mae'r gwaith o gyflawni camau gweithredu/blaenoriaethau'r Cynllun Gwasanaeth yn cael ei fonitro bob chwarter ar ffurf adroddiadau perfformiad drwy'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Craffu ac yna'r Cabinet. Mae'n rhoi cyfle i drafod materion adnoddau a chyllidebau yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau polisi a gwasanaeth sydd ar y gweill i'w hystyried gan y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

Mae blaenoriaethau'r Adroddiad Blynyddol a nodwyd yn yr adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn i ddod 2020/21 wedi'u halinio â Chynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-25 a'i Gynllun Cyflawni Blynyddol cysylltiedig ar gyfer 2020/21. Er bod fformat y Cynllun Corfforaethol newydd wedi newid, mae'r ffocws allweddol yn parhau i fod ar wella iechyd a lles ein dinasyddion.

Yn ogystal â Thîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth a'r Uwch Dîm Rheoli, mae Bwrdd Rhaglen Gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod bob mis. Diben y bwrdd yw rheoli a monitro pwysau cyllidebol ac arbedion sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth a chyflawni gwaith prosiect cysylltiedig. Mae Rhaglen Gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd i Fwrdd y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau oherwydd y synergeddau sy'n bodoli rhwng y ddwy raglen. Caiff adroddiad ar y prif bwyntiau o Gynodeb ar yr Holl Brosiectau ei ddiweddarau yn dilyn pob cyfarfod ac adroddir i'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau y caiff y broses o gyflawni arbedion ei goruchwyllo.



### ***Beth mae ein rheoleiddiwr yn ei ddweud amdonom?***

Bob blwyddyn mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn crynhoi ei hadolygiad o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol ar ffurf adolygiad perfformiad blynyddol. Oherwydd yr amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19, ni ellid cynnal cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol, ond roedd AGC yn gallu rhannu ei barn ar ein perfformiad drwy Lythyr Blynyddol gyda ni. Ceir crynodeb isod o'r cryfderau allweddol, yr heriau a'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn llythyr blynyddol AGC ar gyfer y cyfnod 2019/20.

### **Lles**

Nododd Llythyr Blynyddol AGC y cryfderau allweddol canlynol mewn perthynas â lles:

- Mae'r Awdurdod Lleol yn elwa ar uwch dîm rheoli profiadol.

- Ceir arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel, gan weithio tuag at weledigaeth a rennir sy'n pwysleisio pwysigrwydd dewis ac annibyniaeth yn ogystal â chynnal trefniadau teuluol.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu gwaith gan alinio strwythurau gwasanaethau oedolion a phlant i gefnogi dulliau lleol yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau yn fwy effeithiol.
- Mae ad-drefnu adnoddau ar y rheng flaen ar gyfer y gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant yn sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaethau cymorth cynnar amserol.
- Ehangwyd gwasanaethau ataliol drwy gynnwys asiantaethau partner mewn meddygfeydd meddygon teulu.
- Mae staff, gan gynnwys partneriaid, wedi'u hyfforddi i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd uchel i gefnogi pobl cyn bod angen uwchgyfeirio.
- Mae cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref i'r gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant a dealltwriaeth dda o gryfderau a heriau presennol y gwasanaeth hwn.

Tynnodd AGC sylw hefyd at feysydd lles y mae angen eu gwella ymhellach megis:

- Sgyrsiau ynghylch 'beth sydd fwyaf pwysig', gan fod AGC wedi nodi nad ydynt bob amser yn digwydd yn ddigon buan; a
- Yr angen i ymgorffori ymhellach ddulliau ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau mewn model ymarfer gwaith cymdeithasol cyson. Roedd AGC yn cydnabod bod y gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant yn gweithio'n rhagweithiol tuag at hyn dros y 12 mis nesaf.

## Pobl

Nododd AGC y cryfderau canlynol mewn perthynas ag agweddau ar bobl:

- Ceisir barn dinasyddion. Nododd AGC y gwaith ymgysylltu a wnaed i gyd-gynhyrchu'r Strategaeth Anabledd Dysgu Rhanbarthol, gwaith ymgynghori sy'n gysylltiedig ag adleoli Gwasanaethau Dydd i bobl hŷn a phlant a theuluoedd.
- Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod pobl yn gwrando arnynt ac roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol gyda'u hadborth am y gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn a'r staff a oedd yn eu darparu.
- Mae'r gweithlu gwaith cymdeithasol yn gymharol sefydlog, ac mae morâl yn dda.
- Recriwtio llwyddiannus i swyddi gwag yn y gwasanaethau i oedolion. Lle ceir swyddi gwag o hyd, mae'r Cyngor wedi defnyddio staff asiantaeth mewn rhai swyddi ac wedi cymryd camau i wella recriwtio i'r swyddi gwag sy'n weddill.

Nododd AGC fod y Cyngor yn parhau i gael ei herio gan y gofynion cofrestru ar gyfer gweithwyr gofal cartref, yn enwedig yn y sector annibynnol. Mae llythyr AGC hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, sy'n gyffredin â'r darlun cenedlaethol.

Maes i'w wella:

- Yr angen i wella prydlondeb asesiadau gofalwyr ac i annog gofalwyr i fanteisio ar wasanaethau. Nododd AGC fod cymorth i ofalwyr ar draws y Cyngor wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Atal



Tynnodd AGC sylw at y cryfderau canlynol sy'n gysylltiedig â'n gwaith atal:

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cymorth cynnar a gwasanaethau ataliol ac effaith gwella canlyniadau tra'n lleddfu'r pwysau ar wasanaethau a reoleiddir. Cyfeiriodd AGC at waith Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro i atal derbyniadau i'r ysbyty a helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn perthynas â hyn a buddsoddiad creadigol Cyllid Gofal Integredig. Fodd bynnag, mae AGC yn nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â 'mater capasiti sylweddol yn y sector gofal cartref annibynnol' gan arwain at oedi wrth ddarparu pecynnau gofal fel y gwelir yn y cynnydd mewn achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol.
- Mae'r Cyngor wedi lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod 2019/20. Cyfeiriodd AGC at hyn yng nghyd-destun ffocws y Bwrdd Plant sy'n Derbyn Gofal ar 'gymryd risgiau'n ddiogel'. Mae'r strwythur newydd wedi hwyluso capasiti gwaith cymdeithasol i adolygu a lle bo'n ddiogel i wneud hynny, dirymu Gorchmynion Gofal. Mae defnydd effeithiol o Gyllid Gofal Integredig wedi cefnogi'r gwaith hwn gyda lleoliadau gyda pherthnasau.

O ran heriau, nododd AGC fod sicrhau digon o leoliadau yn parhau i fod yn heriol.

Maes i'w wella:

- Rhagwelwyd y bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ystyried y canfyddiadau o [adroddiad](#) cyhoeddedig yr AGC ar y gofal a brofir gan blant a phobl ifanc i arfarnu eu cyfraniad eu hunain i ganfyddiadau'r adroddiad.

## Partneriaethau

Roedd Llythyr Blynyddol AGC yn tynnu sylw at y cryfderau canlynol sy'n gysylltiedig â gwaith ein partneriaethau:

- Mae amrywiaeth o bartneriaethau effeithiol yn amlwg gyda threfniadau rhanbarthol strategol datblygedig ar waith rhwng Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF).
- Mae Byrddau Partneriaeth a Diogelu Rhanbarthol yn goruchwylio canlyniadau gwell i bobl.
- Mae trefniadau partneriaeth grwpiau cynllunio a chomisiynu ar y cyd wedi arwain at ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth ranbarthol a lleol.
- Mae awdurdod lleol wedi cynnal dull cryf o gefnogi'r Trydydd Sector a ddangosir drwy ddiogelu cyllid ar gyfer buddsoddiad y Trydydd Sector.
- Gwaith partneriaeth strategol effeithiol yn y Gwasanaethau i Oedolion a ddangosir gan y tair swydd uwch reolwr integredig. Cyfeiriwyd hefyd at waith partneriaeth strategol cryf mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Blant lle nodwyd datblygiad Strategaeth Gorfforaethol.
- Nododd AGC bod Gwasanaeth y Glasoed (11+) rhanbarthol ar waith a bod Cyfarfodydd Grŵp Teulu rhanbarthol a gwasanaethau therapiwtig hefyd yn cael eu datblygu gyda phartneriaid y Cyngor.

Nododd AGC nad yw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) wedi'i mabwysiadu eto gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r ansicrwydd parhaus hwn yn creu heriau o ran rheoli ac effeithlonrwydd llifau gwaith a mwy o risgiau lle nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu â gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal unigolion.



### ***Hyrwyddo'r Gymraeg a Mynediad at Wasanaethau***

Nod 'Mwy na Geiriau' a'r Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, wedi'i lywio gan yr angen i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael gafael ar wasanaethau a'u derbyn drwy

gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

- gweithio gyda Chyngor Caerdydd i weithredu Contract Cartrefi Gofal ar y Cyd sy'n cynnwys gofyniad i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y 'Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau' a Safonau'r Gymraeg gysylltiedig;
- gweithio gyda chydweithwyr Corfforaethol i ychwanegu gwybodaeth at ein tudalennau recriwtio ar-lein i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg;
- creu deunyddiau hyrwyddo i atgoffa staff am y dosbarthiadau Cymraeg 'Think Cymraeg' mewn dau o'n Cartrefi Gofal i breswylwyr a staff ymuno â nhw;
- parhau i hyrwyddo cyrsiau iaith Gymraeg a sesiynau blasu i staff ar draws y Gyfarwyddiaeth; a
- sicrhau bod staff yn gallu mynychu Cyrsiau Cymraeg o fewn amser gwaith neu hawlio'r oriau yn ôl, sydd o ganlyniad wedi arwain at fwy o bobl yn manteisio arnynt.



### ***Ein Gwaith Partneriaeth a Chydweithredu***

Drwy ddilyn agenda gydweithredol flaengar gyda'n partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol llwyddom mewn partneriaeth i gynnal gwasanaethau cymorth mwy integredig.

Mae'r dull cydlynol hwn o weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi ein galluogi i wneud cynnydd da o ran cyflawni blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol eleni. Amlinellir isod grynodedeb o rai o'r cyflawniadau allweddol a wnaed hyd yn hyn:

#### **Plant a Phobl Ifanc**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bartneriaeth wedi ehangu cwmpas y Bwrdd i gynnwys ffocws ar anghenion plant a phobl ifanc.

Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, sefydlwyd Bwrdd Plant a Phobl Ifanc newydd i alluogi cynllunio a datblygu gwasanaethau integredig ar draws y rhanbarth.

O ganlyniad i ehangu cwmpas y Bartneriaeth, mae'r meysydd blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi ar gyfer Plant a Phobl Ifanc:

- Gwella'r cynnig sydd ar gael i gefnogi iechyd a lles emosiynol.
- Datblygu fframwaith a rennir gyda dulliau cyffredin cytunedig o weithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth.
- Cynyddu'r wybodaeth, y cyngor a'r canllawiau cysylltiedig sydd ar gael i alluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael cymorth cynnar.

- Cynyddu lefel dylanwad a chyfranogiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Datblygu a chyflawni newidiadau mewn arferion ar draws llwybrau gofal integredig cytunedig.
- Arwain dull ar y cyd a rennir i ddatblygu'r gweithlu a'u lleoli.
- Defnyddio cyllid CGI newydd i ddatblygu gwasanaethau allweddol ar gyfer plant sydd ar fin dechrau derbyn gofal gan gynnwys Cynadleddau Grŵp i Deuluoedd, Ymyriadau Therapiwtig ac Ail-Uno.

## Tai

Mae'r Bwrdd Iechyd, Tai a Gofal amlasiantaeth wedi'i ffurfio i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan y BPRh yn 2017-18 gan y Rhwydwaith Dysgu a Gwella (RhDG) Tai gan ddefnyddio cyllid CGI. Mae'r bartneriaeth hon wedi chwarae rôl strategol allweddol wrth hyrwyddo'r datblygiadau a grybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad blynyddol hwn ynghylch datblygu llety yn y dyfodol gydag atebion gofal.

Mae Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg wedi datblygu Strategaethau Tai Lleol mewn ymateb i'r anghenion tai a nodwyd drwy adroddiad y RhDG. Mae Cyngor Bro Morgannwg wrthi'n datblygu Strategaeth Tai Pobl Hŷn sy'n cael ei llywio gan argymhellion adroddiad y RhDG Tai.

## Pobl hŷn

Mae'r BPRh wedi parhau â'i ymrwymiad i wella bywydau pobl hŷn drwy ddatblygu gwasanaethau mwy integredig drwy ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig a'r arian Trawsnewid sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru.

Fel rhan o faes gwaith pobl hŷn y BPRh, mae cyflawniadau allweddol wedi cynnwys:

- Sefydlu tîm brysbennu amlddisgyblaethol dan arweiniad nyrsys sy'n gweithio fel rhan o *Canolfan Gyswilt Un Fro* sydd wedi galluogi trigolion y Fro i gael cymorth yn eu cymuned neu i hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae hyn wedi cyfrannu at ateb 79% o'r holl ymholiadau heb fod angen eu hatgyfeirio ymlaen.
- Profi effeithiolrwydd gwahanol lwybrau Rhyddhau i Asesu i alluogi pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty yn ddi-oed, gyda'r lefel gywir o gymorth i'w galluogi i wella'n effeithiol. Mae hyn wedi sicrhau nad yw pobl hŷn yn arbennig yn colli eu hannibyniaeth o ganlyniad i'w harhosiad yn yr ysbyty. O ganlyniad i fabwysiadu llwybr rhyddhau effeithiol, yn ystod 2019/20 rydym wedi llwyddo i gynyddu canran y bobl hŷn sy'n dychwelyd adref ac yn cynnal eu hannibyniaeth. Er enghraifft, yn chwarter 3, roedd 79.9% o oedolion a gwblhaodd gyfnod gwella nad oedd angen pecyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach.
- Datblygu amrywiaeth o brosiectau i gefnogi anghenion pobl sy'n byw gyda Dementia. O ganlyniad i'r ymdrech ar y cyd hon, mae'r rhanbarth bellach wedi grymuso dros 25,000 o ddinasyddion i ddod yn Gyfeillion Dementia ac mae gwaith bellach ar y gweill ar draws ein trefi a'n cymunedau ym Mro Morgannwg i ennill statws 'Dementia-gyfeillgar'.

## Trefniadau Comisiynu ar y Cyd

Sefydlwyd Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, a gadeirir gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg ar ran y Bartneriaeth. Gwnaed cynnydd sylweddol i sefydlu dulliau mwy cyson o gomisiynu lle mae hyn yn sicrhau manteision i'r partneriaid a phobl leol.

Mewn ymateb i'r gofyniad a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, sefydlwyd trefniant cyfuno cyllidebau rhwng y ddau awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â darparu llety cartref gofal i bobl hŷn. Daeth hyn i rym ar 1 Ebrill 2018 a chafodd gweithred estyniad o ddeuddeng mis ei chymeradwyo gan y partneriaid ym mis Mawrth 2019.

Mae'r Bartneriaeth nawr yn ceisio alinio ymgysylltiad darparwyr, negodi a chynyddu ffioedd gwasanaethau llety cartref gofal a gwasanaethau gofal cartref ar draws y rhanbarth.

Mae partneriaid yn rhannu'r hyn a ddysgwyd gan y fethodoleg a ddefnyddiwyd i negodi cynnydd yn y ffioedd ac i ymgysylltu â darparwyr, yna ystyried y camau angenrheidiol i alinio'r broses hon. Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ymdrechu i gyflwyno cynnydd mewn ffioedd ar y cyd i ddarparwyr ledled y rhanbarth ar gyfer 2020/2021.

Mae manyleb gwasanaeth gyffredin ar gyfer gwasanaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn wedi'i datblygu fel ei bod yn adlewyrchu deddfwriaeth ddiweddar, arfer gorau ac angen lleol.

Cynhaliwyd mapio prosesau comisiynu presennol ar gyfer gofal cartref a phreswyl sydd gan y tri phartner. Mae hyn wedi dangos bod 40% o lwyth achos broceriaeth y Fro ar gyfer gofal cartref ar ran BIP Caerdydd a'r Fro. Cymerwyd penderfyniad i symleiddio prosesau rhwng Bro Morgannwg a'r BIP.

Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio ar Bolisiâu Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Cartrefi. Mae'r rhain wedi eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau yn y gofynion a ddaeth i rym drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### **Plant gydag Anghenion Cymhleth**

Mae'r project Cynllun Peilot Gwasanaethau Anabledd Integredig yn profi'r cysyniad o weithio integredig rhwng asiantaethau i leihau'r achosion o ddyblygu gwaith, symleiddio gwasanaethau, lleihau cymhlethdod i rieni a nodi o bosib cyfleoedd i osgoi costau yn y gwasanaethau presennol.

Nod y llwybr integredig yw ffurfioli'r ffordd y mae asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth yn ystod eu plentyndod a hefyd drwy gydol eu cyfnod pontio i fyd yr oedolion a thu hwnt. Mae gwahanol elfennau o'r llwybr hwn wedi eu datblygu a'u treialu gyda charfan o 94 o blant, wedi'i diffinio'n benodol.

Yn ystod y cynllun peilot:

- Derbyniwyd 318 o atgyfeiriadau gan y gwasanaethau anabledd dysgu rheng flaen, gan symleiddio'r broses atgyfeirio a'r angen am gyswllt cychwynnol gyda'r gwasanaeth.
- Mae 30 o rieni wedi cael cymorth i ddelio â phlant ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.
- Mae 31 o bobl ifanc wedi eu cynnwys mewn treial o ymyriadau ysgol cyn diagnosis yn y Fro.
- Mae 74 o blant wedi eu harsylwi yn yr ysgol i gefnogi prosesau diagnosis cyflyrau niwroddatblygiadol.
- Mae dau ddiwrnod hyfforddi 'dadansoddi gwahaniaethau niwro-ddatblygiadol' wedi'u cyflwyno i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws y rhanbarth.

## Strategaeth Anableddau Dysgu

Lansiodd partneriaid y Strategaeth Comisiynu rhanbarthol cyntaf i Oedolion ag Anabledd Dysgu 2019 – 2024 ym mis Mehefin 2019. Yn canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth, mae'r Strategaeth Comisiynu ar y Cyd i Oedolion ag Anabledd Dysgu yn amlinellu ymrwymiad i weithio â phobl ag anabledd dysgu wrth ddatblygu gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar wyth blaenoriaeth a nodwyd trwy ymgynghori ac ymgysylltu ag unigolion, gofalwyr, teuluoedd ac asiantaethau partner.

Gweledigaeth y strategaeth a rennir a'i hegwyddorion craidd yw bod pobl ag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi i 'gael bywyd o ansawdd da ac yn y ffordd y maent yn dymuno; gan fyw'n lleol lle maent yn teimlo'n dda ac yn iach, lle maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau ac mae mynediad cyfartal at gymorth priodol ar gael iddynt sy'n sicrhau annibyniaeth, dewis a rheolaeth.'

## System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) wedi cael mandad gan Lywodraeth Cymru i'w gweithredu ledled Cymru er mwyn gallu rhannu gwybodaeth electronig i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal cydgysylltiedig, gan alluogi staff o'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddefnyddio dull integredig o asesu, cynllunio gofal a darparu gwasanaethau. Gweithredwyd y system gan y gwasanaethau cymdeithasol ym Mro Morgannwg, gan ddisodli a gwella'n sylweddol ar y system SWIFT flaenorol. Parheir i ddatblygu swyddogaethau ychwanegol gan gynnwys datblygu modiwl cyllid yn benodol. Fodd bynnag, mae partneriaid allweddol eraill ar draws y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi risgiau sylweddol i weithredu a fyddai'n lleihau'r swyddogaethau sydd ar gael ar eu systemau presennol ac felly ni chyflawnwyd gwir fanteision systemau integredig.

## Cyfalaf CGI

Rhyddhawyd cronfa datblygu cyfalaf tair blynedd drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Mae hyn yn cynnwys y datblygiadau canlynol ym Mro Morgannwg:

- Cwmpas ar gyfer Pentref Pobl Hŷn ym Mhenarth.
- Datblygiadau amrywiol i lety cartref gofal preswyl i wella mynediad i bobl â dementia.
- Datblygiad parhaus safle ysgol arbennig Tŷ Deri.

Mae Adroddiad Blynyddol 2018/19 y BPRh ar gael ar [Gwefan y Bartneriaeth](#) ac mae'n rhoi crynodeb defnyddiol o gyflawniadau allweddol dros y flwyddyn flaenorol. Ni chafodd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n ymwneud â 2019/20 ei gyhoeddi ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.



## 7. Cael Rhagor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi, gyda gwybodaeth allweddol a dadansoddiadau, lwyddiant yr awdurdod lleol wrth wella lles y sawl sydd angen ein help a'n cymorth. Nid hon yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, partneriaid allweddol a darparwyr gwasanaeth. Mae gennym lawer o wybodaeth gefndirol sy'n sail i'r adroddiad hwn ac sy'n rhoi llawer o fanylion ychwanegol am yr hyn a wnawn a sut y gwnawn hynny. Mae'n bwysig cofio, nad yw rhywbeth sydd heb ei nodi yn yr adroddiad hwn fel blaenoriaeth allweddol yn golygu nad ydym yn ei wneud gan fod llawer o weithgareddau ar draws y gwasanaethau cymdeithasol

sy'n chwarae rhan i'n helpu i ddarparu ar gyfer rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymuned.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn, dyma rai dolenni i ddogfennau allweddol fydd yn cynnig rhagor o fanylion:

- [Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg \(2016-2020\)](#)
- [Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg 2020-25](#)
- [Cynllun Cyflawni Blynnyddol Cyngor Bro Morgannwg 2020/21](#) sy'n cynnwys Cynlluniau Gwasanaeth 2020/21 ar gyfer y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc, y Gwasanaethau i Oedolion a Rheoli Adnoddau, Diogelu a Pherfformiad.
- [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro](#)
- [Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.](#)
- [Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro](#) a'r [Cynllun Ardal](#) a'r [Cynllun Gweithredu Ardal](#) cysylltiedig.